


# Atodiad 3
# Safbwyntiau Byd-eang:
# Datblygiad Caerdydd ar ôl COVID-19

TIM WILLIAMS

RHAGAIR

# Safbwyntiau Byd-eang: crynodeb o ddadansoddiad

Er mwyn ystyried dyfodol unrhyw ddinas mae angen i drefolydd gyflawni ei ddiben proffesiynol. Er mwyn ystyried dyfodol y ddinas, fy ninas i, prifddinas fy nghenedl, mae angen ychwanegu anrhydedd at ddyletswydd a balchder. Mae gwneud hynny ar yr adeg hon o argyfwng, her ac ansicrwydd, pan fo gymaint yn y fantol, yn ychwanegu hyd yn oed mwy o bwys at fy nhasg. Bydd yr allbwn o fy adolygiad yn arwyddocaol i Gaerdydd ac mae hefyd yn ychwanegu at y drafodaeth Brydeinig a rhyngwladol ar ddyfodol trefi.

Yn broffesiynol, fel rhywun sydd, dros ddegawdau, wedi astudio a gweithio ar lawer o ddinasoedd yn y DU ac yn rhyngwladol ac sydd ag enw da ym maes polisi a llywodraethu trefol, datblygu economaidd a chymunedol ac adfywio a thai, mae cynnydd Caerdydd fel dinas wedi creu argraff fawr arnaf. Yn bersonol, fel pawb o Dde Cymru, rwy'n hapus iawn â'r cynnydd. Rwy'n falch o fynd â'm teulu o Awstralia i Gaerdydd. Ac, fel pawb o Gymru, hyd yn oed y rheini sy'n pryderu na ddylid anwybyddu eu rhan nhw o'r wlad, rwy'n ystyried ei datblygiad fel prifddinas cenedl newydd gyda balchder a disgwyliad o'i datblygiad yn y dyfodol yn y rôl honno. Yn yr ysbryd hwnnw rwyf wedi cynnal yr adolygiad annibynnol hwn o uchelgeisiau strategol Caerdydd ac wedi awgrymu strategaethau ar gyfer adfer ôl-COVID-19 ar yr adeg dyngedfennol hon. Wrth i frechlyn gyrraedd y DU gyda'r potensial i helpu i adfer hyder, rwy'n credu bod yr adroddiad hwn yn amserol ac yn ymarferol wrth fynd â Chaerdydd yn ei blaen eto ar yr adeg ryfeddol hon o her ond hefyd o gyfle i gyflawni uchelgeisiau hirsefydlog ond hefyd i ailfeddwl am ddyfodol y ddinas fel model gwydn, cynhwysol ac arloesol ôl-covid-19, yn ddeniadol i dalent a buddsoddiad yn y ddinas ryngwladol – gyda chystadleuaeth o'n blaenau i'r ddau.

Mae'n gadarnhad - yn seiliedig ar adolygiad o'r dystiolaeth ar brofiad rhyngwladol sylweddol a dadansoddiad diduedd o'r asedau, y gyrwyr a'r ysgogiadau sydd gan Gaerdydd yn unigryw - o ddyfodol hyderus i'n
prifddinas, ein dinas uchelgais, ein Dinas Graidd – fy ninas gyntaf ac am byth. Ymunodd Caerdydd â'r argyfwng byd-eang hwn mewn cyflwr da, fel Cyngor ac fel dinas, a gall ddod allan ohono hyd yn oed yn gryfach gyda'r ysbryd, y strategaeth, y cydweithrediadau a'r arloesedd cywir, ar ôl COVID-19.

Wrth wneud hynny, gall ddarparu hyd yn oed mwy o fuddion i'w chymuned ei hun a chymuned y ddinas-ranbarth. Mae cyfle ychwanegol pwysig i Gaerdydd ddod, yn sgil COVID-19, yn esiampl ar gyfer dinas o'i maint – ac oherwydd ei maint dynol – yn yr ymdrech ryngwladol i adfer ffydd a momentwm i ddyfodol yr ardal drefol. Gan adeiladu ar ei chryfderau sefydledig a pharhaus, yr uchelgais sydd ganddi i lwyddo, sgiliau a dychymyg ei phobl a'r arweinyddiaeth y mae eisoes wedi'i dangos, nid yn unig y bydd Caerdydd yn adfer - does dim amheuaeth am hynny - ond bydd yn hi'n dod yn ôl yn gryfach wrth i'r Cyngor ailgychwyn yr hyn y gall ei wneud ond hefyd yn ailfeddwl beth sydd angen iddo ei wneud. Rwy'n falch o fod wedi cael fy ngofyn i gyfrannu at y broses honno. Credaf, yn seiliedig ar fy mhrofiad dros ddegawdau o weithio i helpu dinasoedd ledled y byd i drawsnewid ac adfywio, y bydd y Cyngor, wrth ymateb i'r dadansoddiad hwn, nid yn unig yn helpu Caerdydd i wella ar ôl y flwyddyn hon o argyfwng; bydd yn arwain at weld Caerdydd fel model ôl-COVID-19 rhagorol ar gyfer dinas, sy'n ddeniadol i fuddsoddiad a thalent newydd.

P'un a yw rhywun yn besimistaidd neu fel fi yn rhywun optimistaidd rhesymegol, ni ellir cael tasg fwy arwyddocaol na brys i gyngor dinas yn unman ar hyn o bryd na cheisio llunio dyfodol gwell fyth i'r ddinas honno, ei chymunedau a'i busnesau wedi 2020. Yn sicr, nid oes menter bwysicach na hyn i gwmni ymgynghorol fel Arup, sy'n ceisio llunio byd gwell, ei

chefnogi. Ac wrth gwrs fy ymateb fy hun, wedi'i lywio gan y gwrthrychedd gofynnol a thros ugain mlynedd o brofiad cenedlaethol a rhyngwladol ym

PENNOD 1

# Cyflwyniad a diben

Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Gyngor Caerdydd er mwyn llywio ei ddealltwriaeth o effaith bosibl COVID-19 ar lwybr Caerdydd fel dinas y tu hwnt i'r heriau iechyd uniongyrchol sy'n wynebu'r gymuned ar hyn o bryd. Mae'n gofyn:

***Pa fath o ddinas allai Caerdydd fod 20 mlynedd ar ôl blwyddyn gyntaf COVID-19? A sut y gwnaethom ni – y Cyngor a'i gydweithwyr – gyrraedd yno?***

Bydd yr adroddiad yn ysgogi trafodaeth o fewn y Cyngor a thu hwnt i'r senarios posibl a'r ymyriadau posibl a allai fod yn fwyaf perthnasol – a rhai dewisiadau polisi. Yn fy marn i, bydd y ddinas ôl-COVID-19 lwyddiannus yn canolbwyntio ar rai prif ganlyniadau o ran cynllunio a thai, trafnidiaeth, datblygu economaidd, yr amgylchedd ac iechyd a lles mewn fframwaith cynhwysiant a gwydnwch cyffredinol.

## MENTER GANMOLADWY – AR ADEG EITHRIADOL I FOD YN RHEDEG CYNGOR A RHEOLI DINAS BWYSIG

Uwchlaw a thu hwnt i wleidyddiaeth plaid a chwmpasiad penodol a chryn dipyn o gynnwys yr adroddiad hwn, credaf ei bod yn ganmoladwy bod Cyngor, wrth ddelio â heriau'r presennol a nawr mewn cyfnod digynsail, hefyd yn dymuno dechrau ystyried a chynllunio nid yn unig yr hyn sy'n dod nesaf ond sut i lunio'r dyfodol, yn y modd mwyaf effeithiol er budd y ddinas, y rhanbarth a'r genedl. Mae'n werth nodi, yn ogystal â'i drafodaethau a dadansoddiadau ei hun, ei fod wedi gofyn am adolygiad annibynnol i'w herio ymhellach er mwyn mireinio ei strategaethau a'i ymyriadau ei hun.

Ac fel rwyf wedi awgrymu, bydd yn hanfodol o ystyried arwyddocâd Caerdydd, nid yn unig i Gaerdydd ond i Dde Cymru a'r genedl. O ystyried statws Caerdydd fel Dinas Graidd yn y DU, bydd dinasoedd ledled Prydain a thu hwnt yn edrych i Gaerdydd, fel un o'r cyntaf i gomisiynu'r math hwn o adolygiad. Yn yr ysbryd hwnnw, mae'r adroddiad yn gofyn-

Pa bolisïau a dulliau gweithredu y dylai Cyngor Caerdydd eu defnyddio? A pha fath o arweinyddiaeth a

maes polisi trefol a rheoli dinasoedd, yn y bôn, yw: 'City! City! Come on You Bluebirds!'.

rôl y bydd yn eu cymryd i sicrhau llwyddiant y ddinas yn y dyfodol?

## O'R UNIONGYRCHOL I'R STRATEGOL: DEFNYDDIO ARGYFWNG I WNEUD CAERDYDD HYD YN OED YN WELL

Ar sail y dystiolaeth a nodir yn yr adroddiad, awgrymaf ffyrdd y gall Cyngor Caerdydd a'i gydweithwyr adeiladu ar ei ymateb uniongyrchol i argyfwng COVID-19 er mwyn cyflawni nodau ac amcanion mwy strategol a fydd yn galluogi'r ddinas nid yn unig i wella ond hefyd i adnewyddu – ac i gael ei gweld yn gwneud hynny yn y gystadleuaeth rhwng dinasoedd i fuddsoddwyr a thalent a fydd yn sicr o ddilyn maes o law ar ôl y pandemig.

I ryw raddau, mae'r adroddiad yn ymwneud ag adolygu ac adnewyddu'r hyn a allai wneud Caerdydd hyd yn oed yn fwy cynhyrchiol ac yn lle gwell i fyw ynddo yng nghyd-destun dadansoddiad o effeithiau iechyd y cyhoedd ac economaidd y pandemig. Wrth ddathlu'r hyn y gall dinasoedd ar eu gorau ei wneud – a'r hyn sydd wedi'i gyflawni yng Nghaerdydd dros y blynyddoedd dim ond am ei bod yn ddinas ac yn brifddinas – mae'r adroddiad hefyd yn nodi rhai o'u rhinweddau hanesyddol sydd dan fygythiad a rhywfaint o'r hyn nad ydyw efallai wedi bod yn gweithio ymhell cyn COVID-19. Mae hefyd yn awgrymu sut y gall yr argyfwng, drwy ein gorfodi allan o hunanfodlonrwydd a dibyniaeth ar lwybr, fod yn gyfle i wella canlyniadau. Fy nod yw helpu Cyngor Caerdydd a'i gydweithwyr i gryfhau Caerdydd ymhellach a'i helpu i gyflawni ei botensial i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd a thrwy hynny ei gwneud hi a'r cymunedau a'r busnesau ar ei thraws, yn fwy gwydn yn wyneb heriau'r dyfodol.

Yn dilyn y dadansoddiad hwn, rwy'n ystyried, ymysg pethau eraill, materion a fydd, yn fy marn i, yn dod yn bwysicach fyth i Gaerdydd yn sgil y flwyddyn COVID-19 hon.  Mae’r rhain yn cynnwys:

- Cynwysoldeb a sut i'w wella;
- Gwella rheolaeth drefol drwy offer a data digidol;
- Cynllunio a strategaethau trefol a pha wersi neu gyfarwyddiadau teithio i'w hymgorffori sy'n deillio o COVID-19;
- Arloesi, arallgyfeirio a chryfhau ffrydiau incwm i'r Cyngor a phartneriaid i gefnogi gweithgareddau adnewyddu ac adfywio'r economi;
- Adeiladu galluoedd cyflenwi a strategaethau'r cyngor a phartneriaid ac arloesi llywodraethu a sefydliadau cydweithredu;
- Canolbwyntio ar fentrau i hyrwyddo cymuned iachach a Chaerdydd sy'n fwy amgylcheddol gynaliadwy

A'r cyfan gyda'r nod o wella gwydnwch Caerdydd yn wyneb ergydion a straen yn y dyfodol ac adnewyddu ei rôl hollbwysig fel cynhyrchydd cyfle ac amwynder ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

## CAERDYDD: PRIFDDINAS 'LLES'

Mae fy meddwl a'm hymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn wedi fy arwain i gredu, wedi’i ysgogi gan COVID-19 fel y mae'r Cyngor, y gall cynnwys yr adroddiad helpu i fynd â Chaerdydd ymhellach ar hyd y llwybr, yn gynharach, i roi 'lles' wrth wraidd ei bolisi a'i gamau gweithredu. O'r drwg y daw’r da. Yn amlwg, dan ‘Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) Deddf 2015' mae gan bob sefydliad cyhoeddus yng Nghymru rwymedigaeth gyfreithiol i flaenoriaethu datblygu cynaliadwy wrth wraidd polisi ac i gynllunio i gyflawni'r nodau llesiant allweddol sy'n ymwneud â ffyniant, gwydnwch, mwy o gydraddoldeb, iechyd, cydlyniant cymunedol, diwylliant ac iaith fywiog, a chyfrifoldeb byd-eang. Gellir ystyried bod yr adroddiad hwn yn cyfrannu at gyflawni nodau o'r fath yng Nghaerdydd mewn cyfnod pan oedd gwneud cynnydd tuag atynt, er yn heriol, yn holl bwysig.  Credaf y bydd dyfodol Caerdydd wedi'i wreiddio mewn amcanion o'r fath a bod gan y ddinas gyfle i sylweddoli ei bod yn esiampl yng Nghymru ond hefyd i Gymru, ar y llwyfan rhyngwladol.

PENNOD 2

# ‘Prifddinas ffyniannus' – nodi cynnydd ac uchelgais Caerdydd hyd yma

Mae'r adran hon yn archwilio cynnydd Caerdydd cyn COVID-19. Mae llinell farchnata Prifysgol Caerdydd yn dangos hyn yn dda: 'Prifysgol flaenllaw yng nghanol prifddinas ffyniannus'. Mae Caerdydd wedi gweld trawsnewidiad dramatig o ddirywiad ôl-ddiwydiannol i economi sy'n seiliedig ar wasanaethau ac sy'n gyfoeth o wybodaeth ers dechrau'r 80au, er nad oedd y broses honno'n gyflawn nac yn ofodol gynhwysol erbyn 2020 gyda rhai cymunedau ar draws y ddinas angen buddsoddiad newydd o ran ffocws polisi. Tyfodd ei statws a'i rôl fel prifddinas Cymru yn sylweddol hefyd. Mae gan Gaerdydd:

- Ganol dinas amlbwrpas ac amrywiol sydd wedi’i hadnewyddu - ac sy’n adnewyddu - gyda’r unig Ardal Busnes Ganolog (ABG) yng Nghymru
- Gallu unigryw i gynnal digwyddiadau chwaraeon mawr yng nghanol y ddinas
- O leiaf ddwy ardal arloesi sy'n datblygu, un mewn diwydiannau creadigol a'r cyfryngau, y llall mewn gwyddorau bywyd
- Clystyrau cystadleuol mewn gwasanaethau digidol, technoleg ariannol a busnes.
- Bae sydd wedi'i atgyfodi ac sy’n parhau i gael ei adfywio, sydd bellach yn gartref i seilwaith diwylliannol allweddol a Llywodraeth Cymru
- Sector prifysgol sy'n perfformio'n dda gyda rhagoriaeth ymchwil sylweddol a rhai o'r ysgolion sydd wedi gwella fwyaf yn y wlad
- Sylfaen gynyddol o swyddi gwybodaeth gwerth uchel i wasanaethu'r ddinas-ranbarth
- Llif sylweddol o brosiectau datblygu mawr – gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus integredig – gan ehangu daearyddiaeth cyfle economaidd y ddinas ymhellach
- Ardal gyhoeddus sy'n gwella'n barhaus, sy’n ddeniadol ac y gellir cerdded / beicio ynddi wrth y craidd mewnol ac o'i amgylch gyda mentrau pellach wedi'u cynllunio ar draws y ddinas.
- Statws cynyddol fel prifddinas genedlaethol Cymru gyda chymuned gosmopolitan

Mae gan Gaerdydd un o'r ychydig hybiau gwasanaethau ariannol, technoleg ariannol a chyfreithiol y tu allan i'r de-ddwyrain gyda chlwstwr cynhyrchu diwylliannol a diwydiannau creadigol o arwyddocâd y DU. Mae'n cael adolygiadau gwych gan y rhai sy'n mynychu digwyddiadau chwaraeon o'r radd flaenaf yn un o'r ychydig stadia yn y byd yng nghanol y ddinas. Mae Caerdydd wedi dod yn ddinas sydd â phŵer cynyddol yn economaidd – ac yn un â statws cynyddol fel dinas brifysgol a dinas i genedl newydd – gan greu ffocws pwysig ar gyfer mewnfuddsoddiad, denu talent a sectorau arloesol ar gyfer y ddinas-ranbarth ar drothwy COVID-19.

## PREMIWM A HER CAERDYDD

Mae'r rhain i gyd yn cyfrannu at Bremiwm Caerdydd ond hefyd at her Caerdydd, fel y dengys cymariaethau â Manceinion. Mae poblogaeth Caerdydd ychydig yn llai na chwarter y cyfanswm ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Ond mae'n cynhyrchu 34% o'i gynnyrch domestig gros. Fodd bynnag, mae Manceinion gyda dim ond 19% o boblogaeth ei rhanbarth yn cynhyrchu 32% o gynnyrch domestig gros ei rhanbarth. Mae hyn yn awgrymu her 'targed ymestynnol' bosibl i Gaerdydd geisio efelychu cynhyrchiant cymharol Manceinion. Mae gwireddu potensial y prosiect Metro Canolog gan gynnwys y Sgwâr Canolog yn un o nifer o allweddi i'r amcan hwn ôl-COVID-19 a dyma'r math o brosiect y gallai dinas grynodol fel Caerdydd ei gyflawni dros Gymru.

Rydym hefyd yn gweld yr hyn a elwir mewn gwledydd eraill yn 'Ardaloedd Arloesi', gydag o leiaf ddwy mewn diwydiannau creadigol a'r cyfryngau ac un arall ym maes iechyd, a allai fod o botensial sylweddol ar lwyfan y DU neu hyd yn oed yn ehangach. Ac fel y gwelsom, mae Caerdydd yn dod yn adnabyddus yn fyd-eang fel canolfan ymchwil clwstwr lled-

ddargludyddion cyfansawdd o arwyddocâd. Mae Caerdydd hefyd yn dod i'r amlwg fel lle ar gyfer talent ddigidol a thechnoleg ariannol, gyda chymysgedd o fusnes cynhenid cartref a banciau 'cystadleuol' blaenllaw wedi'u lleoli yn y ddinas.

Mae wedi'i hen sefydlu mewn llenyddiaeth economaidd bod pob dinas nid yn unig yn darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer gwasanaethau busnes gwybodaeth-ddwys na ffurfiau anheddiad dwysedd is, ond hefyd bod gan ddinasoedd sy'n arbenigo mewn gwasanaethau busnes gwybodaeth-ddwys (KIBS) neu sydd â mantais gymharol iddynt, gynhyrchiant uwch na'r cyfartaledd. Mae swyddi mewn gwasanaethau o'r fath yn dueddol o fod angen gweithwyr sgiliau uwch ac sy'n elwa mwy o effeithiau crynodiad sy'n deillio o agosrwydd pobl. Wrth i rannu gwybodaeth ac allanoldebau cynhyrchiant ostwng dros bellter, mae diwydiannau gwybodaeth-ddwys yn tueddu i glystyru'n agos at ei gilydd er mwyn elwa o economïau crynodol.

Unwaith y bydd cwmnïau mewn diwydiant yn dechrau clystyru mewn lleoliad, gall ei dwf fod yn hunan-brofol. Mae'n amlwg o ddata diweddar Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd fod Caerdydd wedi bod yn un o ddinasoedd craidd y DU mwy llwyddiannus wrth symud ei heconomi o sectorau cynhyrchiant is sy'n dirywio ac sy'n gysylltiedig â gweithgareddau echdynnu, gweithgynhyrchu a phorthladdoedd, i wasanaethau busnes gwybodaeth-ddwys gyda gwerth gros uwch fesul gweithiwr.

Mae Caerdydd hefyd wedi perfformio'n dda o ran ffurfio cwmnïau sydd â gallu cynyddol i greu cwmnïau gyda 5 neu fwy o weithwyr, trothwy pwysig yn y cyd-destun hwn.

Dylid ychwanegu bod data o'r fath yn tueddu i awgrymu bod proses o ffurfio cwmnïau cynhenid wedi bod ar waith, er y byddai rhywfaint o'r gwaith yn cael ei arwain gan fuddsoddiad uniongyrchol o dramor (y mae Caerdydd wedi bod yn ganolbwynt allweddol iddo yng Nghymru). Mae hyn yn dangos budd pellach o economi drefol Caerdydd, sef y bydd unrhyw fuddsoddiadau uniongyrchol o dramor o'r fath yn cael effaith luosogi ar greu cwmnïau a swyddi na ellir eu cyflawni y tu allan i ffurf drefol ddwysach Caerdydd ac ecosystem arloesi gysylltiedig. Mae buddsoddi ond yn dychwelyd mwy o werth, boed breifat neu gyhoeddus, mewn cyd-destunau o'r fath.

## MAE CAERDYDD WEDI BOD YN CREU SWYDDI DA SY'N DDENIADOL I'R DDINAS-RANBARTH

Felly mae Caerdydd wedi bod yn creu sectorau a swyddi nad ydynt i'w cael mewn mannau eraill yng Nghymru, gyda chynhyrchiant (a chyflogau) uwch a chapasiti uwch i alluogi cwmnïau deilliedig newydd i gael eu ffurfio a chyfleoedd cyflogaeth sy'n deillio o hynny mewn sectorau nad ydynt yn arloesi. Mae swyddi gwybodaeth, ac yn enwedig swyddi arloesi a alluogir drwy grynodiad, yn dueddol o arwain at gyflogau uwch nag, er enghraifft, buddsoddiad gweithgynhyrchu cyfnod blaenorol, ac nid yn uniongyrchol ond hefyd yn anuniongyrchol gan fod gweithwyr sy'n cefnogi ac yn cyflogi gweithwyr mewn sectorau arloesi yn ennill mwy hefyd. Maent hefyd yn creu mwy o swyddi deilliedig na buddsoddiad gweithgynhyrchu traddodiadol.

Felly, mae economi Caerdydd yn gynyddol seiliedig ar arloesedd, ac yn wir mae wedi dod yn gymharol gyflymach na rhai Dinasoedd Craidd eraill, ac yn sicr yn rhagori ar ardaloedd yn Ne Cymru y tu allan i'w hardal drefol weithredol. Awgrymir hyn gan ddata ar fetrig arloesi allweddol, sy'n ymwneud â chofrestru patentau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn hefyd yn dangos bod Caerdydd wedi perfformio'n well na Llundain, pro-rata hyd yn oed, wrth gofrestru patentau.

Mae Caerdydd wedi bod yn gwneud cyfraniad hanfodol i economi De Cymru ond fel canolfan wleidyddol, ddiwylliannol a busnes integredig mae ganddi gynnig gwerthu hyd yn oed yn fwy unigryw – na all yr un ganolfan drefol arall yng Nghymru, a dim ond llond llaw yn y DU, ei brasamcanu. Mae hyn yn ei helpu i ddenu a harneisio mentrau a rhaglenni ar lefel y DU - sy'n hanfodol yn y cyfnod ôl-Brexit ac yng nghyd-destun agenda 'lefelu' y DU – er budd y genedl yn gyffredinol, ac yn enwedig y ddinas-ranbarth: mae ei chreu, gyda'r Metro  yn gefndir iddi a symbol o fwy i ddod, wrth gwrs yn arwydd arall o rôl a chynnydd Caerdydd.

I gydnabod y cynnydd a'r rôl hon, mae Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru drafft – a gyrhaeddodd ymgynghoriad ar drothwy COVID-19 – yn gweld dinas-ranbarth llwyddiannus, sy'n deillio'n rhannol o fodel twf Caerdydd, yn hanfodol i gynnydd cenedlaethol pellach. Mae'r adroddiad yn cefnogi'r amcan a rennir hwn.

## CORON DRIPHLYG CAERDYDD: CYNNIG GWERTHU UNIGRYW – A SYMBOL PELLACH O'I CHYNNYDD

Mae prifddinas-rwydd, sy'n aml yn cael ei hanghofio, yn fath unigryw o ddinas-rwydd ac mae gan ddinasoedd o'r fath asedau a photensial unigryw. Er bod pob prifddinas, wrth gwrs, yn ganolfan wleidyddol cenedl, nid ydyw bob amser yn ganolfan fusnes a diwylliannol gwlad. Mae Llundain. Fodd bynnag, er mai Washington yw prifddinas wleidyddol yr Unol Daleithiau, Efrog Newydd yw ei chanolfan ariannol ac LA yw ei chanolfan ddiwylliannol. Mae Caeredin yn brifddinas wleidyddol a diwylliannol ond Glasgow yw prif gadarnle economaidd yr Alban o hyd.

I'r gwrthwyneb, mae Caerdydd yn gwisgo'r goron driphlyg: yn yr 20 mlynedd diwethaf, mae wedi dod yn brifddinas wleidyddol a diwylliannol Cymru, gyda phwysigrwydd cynyddol fel yr ydym wedi'i weld fel canolfan fusnes, mewn gwasanaethau proffesiynol a sectorau gwybodaeth, sy'n ei gwneud yn wahanol. Dyma ei chynnig gwerthu unigryw – na all unrhyw ganolfan drefol arall yng Nghymru, a dim ond llond llaw yn y DU, ei brasamcanu – ac fel pob menter lwyddiannus, mae angen iddi chwarae i'w chryfderau unigryw a'u dwysau, gan fanteisio ar ei màs critigol a rhyngweithio rhwng sectorau allweddol, ar y daith hyd at 2040.

Wrth gwrs, mae COVID-19 yn effeithio'n ddifrifol ar sut mae'r ddinas yn gweithredu yn y tymor byr, a bydd yn dylanwadu ar ei chwrs yn y dyfodol fel peiriant economaidd a diwylliannol. Ond ni fydd COVID-19, er y gallai effeithio ar drafodaethau am lobaleiddio a hyd yn oed ryngweithio â meddwl ôl-Brexit ar lefel Brydeinig, yn lleihau statws unigryw Caerdydd fel prifddinas. Efallai y gwelwn hyd yn oed mwy o ymwybyddiaeth ohono fel un o'r prif ffocysau hunaniaeth gyfunol sy'n deillio o'r cyfnod heriol hwn. Mae dinasoedd wedi bod ar flaen y gad yn y frwydr yn erbyn COVID-19, ac wrth wneud hynny maent wedi llwyddo i greu ymdeimlad cryfach fyth o falchder dinesig ac wedi ceisio uno poblogaethau sy'n aml yn wahanol y tu ôl i hunaniaeth ddinesig unedig. Mae'r hunaniaeth hon hyd yn oed yn gryfach a hyd yn oed yn bwysicach i bobl pan mai prifddinas eu cenedl ydyw.

Beth bynnag sy'n digwydd yn hynny o beth, yn wleidyddol, mae'n debygol, wrth i ddatganoli a hunanlywodraeth aeddfedu ymhellach a bod cyfansoddiad y DU ei hun yn esblygu ymhellach, y bydd gan Gaerdydd erbyn 2040 hyd yn oed fwy o arwyddocâd fel prifddinas – yng Nghymru, o fewn y DU ac yn wir ar y llwyfan rhyngwladol, yn Ewrop a thu hwnt. Yn fy marn i, ni ellir ond gwella ymhellach dros amser, ei statws fel un o bedair prifddinas y DU sy'n trawsnewid, gan ei godi nid yn unig mewn perthynas â chanolfannau trefol eraill yng Nghymru ond hefyd mewn perthynas â Dinasoedd Craidd eraill y DU.

## DINAS GRAIDD CYMRU

Pwysleisiaf mai rhan o gynnydd a chydnabyddiaeth brand gwell Caerdydd yn ystod y degawdau diwethaf yw ei bod wedi cael ei chydnabod fel aelod allweddol o Ddinasoedd Craidd y DU. Mae hwn yn sefydliad ac yn eiriolwr ac yn lobïwr pwysig i ddinasoedd o'r fath ond mae hefyd yn gyswllt hanfodol o ran cyd-destun y DU yng Nghymru sy'n dal i esblygu a datganoli.

Fel un o Ddinasoedd Craidd y DU, mae Caerdydd eisoes yn cyfrannu at allbwn Prydain gyda'r potensial – gyda'r lleoliadau polisi cywir – i gyflawni hyd yn oed mwy. Ar lefel y DU, mae codi perfformiad y Dinasoedd Craidd hynny a'u dinas-ranbarthau cysylltiedig wedi bod yn codi'r agenda wleidyddol a pholisi. Yn amlwg yn y degawd diwethaf gwelwyd arloesedd polisi gan y llywodraeth ganolog yn cynnwys dinasoedd a dinas-ranbarthau o'r fath, lle mae Caerdydd wedi cymryd rhan ac yn wir wedi chwarae rhan ffurfiannol yng nghyd-destun Cymru. At hynny, ar ôl etholiad diwethaf y DU etholwyd llywodraeth ar lwyfan o 'lefelu, o bosibl yn cynnwys buddsoddi mewn arloesedd polisi tuag at ddinasoedd a threfi y tu allan i ardaloedd mwy llewyrchus De-ddwyrain Lloegr a'u datganoli.

## RÔL HANFODOL CAERDYDD I GYMRU

Yn syml, rhaid galluogi Caerdydd, drwy ei defnydd creadigol o'i chapasiti ei hun ond hefyd drwy bartneriaeth o'r newydd gyda'i chydweithwyr allweddol – yn yr ymdrech genedlaethol gydgysylltiedig bwysicaf efallai ers ffurfio llywodraeth yng Nghaerdydd – i barhau i chwarae ei rôl hanfodol. Er mwyn gwneud hyn, rhaid iddi gael mynediad at y pwerau, yr adnoddau a'r llywodraethu sydd eu hangen i ddarparu'r seilwaith trafnidiaeth, y prosiectau datblygu economaidd a sgiliau sy'n llunio'r ddinas, y mentrau trefol a'r mentrau creu lleoedd a'r strategaethau gwydnwch sydd eu hangen i gyflawni uchelgeisiau'r ddinas ei hun a'u potensial ar gyfer y rhanbarth ehangach.

Pwysleisiaf: fy 'optimistiaeth resymegol' ynghylch heriau Caerdydd o COVID-19 a'n potensial i ddod allan ohoni'n gadarnhaol, ac eto nid oes angen unrhyw hunanfodlonrwydd ynglŷn â chynnydd y ddinas hyd yma na phroblemau o'n blaenau. Er bod yr adroddiad yn rhoi cefnogaeth i agenda polisi Uchelgais Prifddinas y Cyngor, bydd angen eglurder didrugaredd ar Gaerdydd eto ynghylch pa rai o gynlluniau neu asedau'r ddinas na fyddant yn goroesi'r argyfwng hwn a bod yn agored i gapasiti strategaethau newydd creadigol a'r cydweithrediadau sydd eu hangen i ymateb i'r heriau sydd o flaen y ddinas, ei busnesau a'i chymunedau amrywiol. Mae angen unrhyw beth ond dull 'busnes fel arfer' yn dilyn yr argyfwng hwn – yn bennaf oherwydd er gwaethaf y cynnydd a adroddwyd yma roedd llawer mwy i'w gyflawni, cyn i COVID-19 daro, ac yn hollbwysig, llawer mwy o gymunedau i'w cyrraedd i sicrhau bod manteision twf cynhwysol a safon byw well yn cael eu

rhannu ar draws y ddinas.

Nod yr adroddiad yw helpu'r Cyngor i sicrhau, ar ôl yr argyfwng hwn – a chael ei ysgogi ganddo – ar ôl COVID-19, y gall Caerdydd yn wir fod yn ddinas fwy cynhwysol, iach, economaidd lwyddiannus a gwydn i bawb sydd â thegwch, safon byw da a chynaliadwyedd – wedi'u cyfuno efallai mewn fersiwn unigryw Gymreig o'r agenda Di-garbon / Dim tlodi byd-eang sydd wedi’i llunio o amgylch Cytundeb Paris a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig – fel egwyddorion arweiniol waeth ble mae rhywun yn byw.

PENNOD 3

# Dinasoedd ar drothwy COVID-19

Yn yr adran hon rwy'n adolygu'r drafodaeth ryngwladol a'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg am effaith COVID-19 ar ddinasoedd a'u dyfodol. Dinasoedd oedd 'y dyfodol unwaith': ydy hynny dal yn wir yn oes COVID-19 a'i ganlyniadau? Oedden nhw i gyd – mawr, neu fach – mewn cyflwr da ar drothwy COVID-19? A yw pob dinas yn cael eu heffeithio'n gyfartal ac yn yr un modd? Neu a yw’n dibynnu ar y maint? Yn hollbwysig, os yw Caerdydd fel dinas yn dal i fod yn ganolog i ddyfodol Cymru a yw hynny'n golygu 'busnes fel arfer' i Gaerdydd neu oes rhaid i'w chyfeiriad, hyd yn oed ei model datblygu dinas, newid? Os felly, pa fath o newidiadau neu genhadaeth, a ddylai Caerdydd ganolbwyntio arnynt nawr?

## RYDYM WEDI RHEOLI ARGYFYNGAU IECHYD TREFOL O'R FATH O'R BLAEN

Mae hanes yn awgrymu y byddwn ni fel cymdeithas yn trechu’r bygythiad hwn, waeth pa mor besimistaidd fu'r hwyliau. Rhaid cofio, yn dilyn Ffliw Sbaeneg 1918/19, y daeth yr 20au gwyllt, pan ddychwelodd twf i ddinasoedd a’r defnydd amlwg ohonynt.  Fel y noda'r trefolydd Ed Glaeser, mae gan ddinasoedd a phandemigau hanes hir: mae dinasoedd a threfi bob amser wedi gorfod 'cael cydbwysedd rhwng darparu'r dwyseddau sy'n cefnogi'r cydweithio, y wybodaeth a'r arloesedd sydd eu hangen i gyflymu twf economaidd, tra'n mynd i'r afael hefyd â'r risgiau i iechyd y cyhoedd y mae dwysedd yn eu creu'.

Mae'r adroddiad yn ystyried hanes o'r fath ac mae hefyd yn adolygu'r dinasoedd hynny sydd, hyd yn oed heb frechlyn, wedi gweld defnydd trafnidiaeth gyhoeddus yn dychwelyd i 80% o hynny cyn COVID-19, gyda lleoliadau lletygarwch, wedi'u helpu gan safonau uchel o hylendid cymunedol a hunanddisgyblaeth, yn gweithredu'n agos at y norm gyda stadia chwaraeon yn agos at gapasiti – pob un â chanlyniadau iechyd tebyg neu well i'r rhai yn y DU ond gyda chanlyniadau economaidd gwell. Nid rhoi sylw i berfformiad y DU yw pwynt hyn: ond i gyfeirio at enghreifftiau yn y byd go iawn o wydnwch a pharhad dinasoedd fel ysbrydoliaeth i ni adennill ein dinasoedd ein hunain cyn gynted ag y gallwn, yn ddiogel. Mae'n ein hatgoffa o hanes hir ymgysylltiad y ddynoliaeth â phandemigau sy'n tueddu i fynd tuag at 'normal newydd' sydd wir yn 'normal' yn yr ystyr a awgrymwyd gan ymchwilydd brechlyn arbenigol yn Johns Hopkins yn yr Unol Daleithiau: 'Rwy'n credu bod y feirws hwn gyda ni am y dyfodol. Ond mae’r ffliw gyda ni hefyd, ac ar y cyfan, nid yw'r ffliw yn cau ein cymdeithasau. Rydyn ni'n ei reoli'.

Beth bynnag sy'n digwydd o'r pwynt hwn, nid oes amheuaeth y gall Caerdydd, gyda'i sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector wedi’u halinio, ei 'reoli', a gwneud hynny gyda dychymyg ac asbri. Wrth wneud hynny gall Caerdydd nid yn unig barhau â'i thaith fel Dinas Graidd Cymru ond hefyd ddenu sylw, buddsoddiad a thalent newydd ar hyd y ffordd.

## SUT ROEDD DINASOEDD YN CYFLAWNI: MEWNWELEDIADAU A THUEDDIADAU ALLWEDDOL WRTH I COVID-19 DARO

Fel y gwyddom, mae dinasoedd yn bodoli oherwydd ac ar gyfer crynodiad a manteision hynny. Maent yn bodoli am eu bod yn eu hanfod yn fwy effeithlon a chynhyrchiol ac yn creu mwy o amwynderau nag unrhyw fath llai dwys arall o agregu dynol neu y gellir eu cyflawni gan dechnolegau rhithwir, er gwaethaf datblygiadau diweddar.

Cafwyd cyfnod ar ôl i fwy o bobl ddod yn berchen ar gar a dad-ddiwydiannu'r economi pan gollodd ardaloedd canol dinas boblogaethau preswyl a swyddi. Ond yna gwelsom adferiad o weithgarwch cynhyrchiol canol trefol ac yn nifer y bobl sy'n gweithio

mewn ardaloedd trefol mewnol ac yn byw'n agos atynt – proses sydd wedi ennill y term 'ail-drefoli'r economi'. Profodd Caerdydd hyn hefyd.

## DINASOEDD:  MANNAU CYNHYRCHIOL, WYNEB YN WYNEB Y GELLIR BYW YNDDYNT O WERTH UCHEL

Gyda thwf y rhyngrwyd a chyfathrebu byd-eang, rhagwelodd llawer farwolaeth dinasoedd. Mewn gwirionedd, wrth i'r economi ddod yn fwy arbenigol, yn seiliedig ar wybodaeth ac yn canolbwyntio ar anniriaethu, mae agosrwydd wyneb yn wyneb yn dod yn fwy, nid yn llai arwyddocaol.  Mae cwmnïau a sefydliadau sy'n cynhyrchu gwybodaeth yn dal i fod eisiau bod yn agos at ei gilydd a chael mynediad i weithlu medrus a chreadigol a'r eco-system gyfan honno sy'n seiliedig ar leoedd sy'n cael ei galluogi gan amgylcheddau'r ddinas. Ar drothwy COVID-19 roedd dealltwriaeth gynyddol o bwysigrwydd ansawdd 'lle' a rheoli lleoedd wrth greu gwerth ac wrth ddenu talent symudol a buddsoddwyr yn chwilio am amgylcheddau cynhyrchiol y gellir byw ynddynt.

## TUAG AT Y DDINAS Y GELLIR BYW YNDDI: HYD YN OED YN FWY BRYS NAG O'R BLAEN

Dyna pam y mae Cyngor Caerdydd, a hynny'n briodol, wedi rhoi safon byw wrth wraidd ei weledigaeth ar gyfer y ddinas. Mae'r adroddiad hwn yn pwysleisio bod safon byw wedi'i atgyfnerthu gan bryder sydd wedi'i ysgogi gan COVID-19 am iechyd a lles y cyhoedd, wedi dod yn amcan pwysicach fyth i Gaerdydd. Mae'n ganolog i'r hyn y bydd angen i'r model llwyddiannus o ddinas fod i gadw a thyfu ei chymunedau ei hun ond hefyd i ddenu buddsoddiad a thalent newydd yn y degawdau i ddod. Yn wir, gall Caerdydd fod yn esiampl o hyn; a gall, yn fy marn i, berfformio'n well na'r dinasoedd mwy a mwy heriol ar y maen prawf allweddol hwn.

## AR DROTHWY COVID-19: PROBLEM ALLANOLDEBAU NEGYDDOL YN Y DINASOEDD MAWR

Ar drothwy COVID-19, roedd rhai o’r dinasoedd mwy neu fega yn dechrau profi pwysau gan dwf anhrefnus, a’r allanoldebau negyddol.  Roedd eu cynhyrchiant ac felly eu hatyniad yn y farchnad ryngwladol yn dechrau eu gwneud yn ddioddefwyr o'u llwyddiant eu hunain gan fygwth eu monopoli fel atyniad talent, syniadau a chyfoeth. Yn benodol, roedd chwyddiant prisiau asedau uchel yn ysgogi rhai teuluoedd â phlant i symud i ardaloedd sy'n cynnig mwy o dai fforddiadwy a safon byw cyfatebol neu well. Roedd y dinasoedd byd-eang a'r rhai ar ffin y categori hwnnw'n dod yn 'ddinasoedd moethus': yn anghyfartal, wrth i COVID-19 daro.

Roedd hyn yn ysgogi mwy o ddiddordeb yn atyniadau dinasoedd 'eilaidd' cystadleuol, gydag arwyddion o newid posibl yn naearyddiaeth atyniad talent a buddsoddiad lle gallai dinasoedd llai ond cystadleuol gyda'r asedau cywir, amgylcheddau byw a strategaethau fanteisio arnynt.

## COVID-19: HER I'R HOLL DDINASOEDD YN Y 'GANRIF DREFOL'?

Rhoddodd COVID-19 sioc fawr i ddinasoedd a oedd eisoes yn cael eu herio gan godi cwestiynau am y model trefol mwyaf blaenllaw hwnnw yn ddiweddar, y ddinas mwyaf cywasgedig, dwysedd uwch ag adeiladau uwch fel ymgorfforiad ffisegol o economeg crynodol. Mae rhai amheuwyr o ddinasoedd wedi mynd mor bell â dweud bod yr hyn sydd wedi troi dinasoedd o fetel sylfaenol i aur – sef dwysedd – ynddo'i hun yn arf i'r pandemig ac felly ni ddylid ei defnyddio fel egwyddor drefniadol. Fel y dywedwyd gan un sylwebydd o'r fath, 'Mae dinasoedd â dwysedd uchel yn lledaenu'r coronafeirws'. Ond dylem fod yn ofalus wrth feio dwysedd trefol. Mae'r canfyddiad negyddol o ddwysedd trefol, waeth faint o orliwio sy’n cael ei wneud, yn bwerus, mae'n llunio marchnadoedd – ac mae iddo oblygiadau i Gaerdydd, ac nid yw pob un ohonynt yn negyddol.

## MAE NEWYDDION AM FARWOLAETH DINASOEDD WEDI'I ORLIWIO'N FAWR?

Wrth ruthro i amddiffyn dinasoedd, mae'r trefolydd Richard Florida yn dweud bod y 'newyddion am farwolaeth dinasoedd wedi cael ei orliwio'n fawr'. Gan gyfaddef y bydd rhai agweddau ar ein dinasoedd a'n hardaloedd metropolitan yn cael eu hail-lunio, yn dibynnu ar ba mor hir y mae'r pandemig presennol yn para' a bod 'ofn dwysedd, ac o isffyrdd a threnau yn arbennig, ynghyd ag awydd am amgylchedd mwy diogel a mwy preifat yn gallu tynnu rhai tuag at y maestrefi a'r ardaloedd gwledig', mae Florida'n awgrymu y bydd 'grymoedd eraill yn gwthio pobl yn ôl tuag at y canol trefi mawr', yn enwedig 'pobl ifanc uchelgeisiol 'a fydd yn 'parhau i heidio i ddinasoedd i chwilio am gyfleoedd personol a phroffesiynol'. Mae'n ychwanegu y bydd rhai ohonynt yn artistiaid a cherddorion a dynnir yn ôl gan renti is, diolch i'r diffyg economaidd o'r feirws sy'n caniatáu i ddinasoedd 'ailosod ac ail-lunio eu sefyllfaoedd creadigol'. Roedd sylwebyddion eraill wedi adleisio'r farn hon y bydd dinasoedd o'r fath yn gweld cynnydd o ran poblogaethau canol dinas a mwy o bobl ifanc mewn Ardaloedd Busnes Canolog ac ardaloedd sy'n agos atynt.

## DIOGELWCH YN Y MAESTREFI? YR ANGEN AM HYDER YN YR AMGYLCHEDDAU TREFOL

Fodd bynnag, nid oes amheuaeth, er gwaethaf safbwyntiau o'r fath, fod canfyddiad o'r pandemig fel rhywbeth sy'n "anffurfio cryfder gwych a dwysedd dinasoedd yn elyn" yn cael ei ddefnyddio i ymosod ar drefoli yn gyffredinol. Mae Michael Kimmelman, adolygydd pensaernïol nodedig New York Times, eisoes wedi rhybuddio y bydd 'gwrthwynebwyr dwysedd yn manteisio ar COVID-19 i danseilio cefnogaeth i brosiectau sy'n dibynnu ar ddwysedd', a bydd yn ceisio hyrwyddo adfywiad o ran maestrefi a datblygiad dwysedd isel i ffwrdd o ddinasoedd. Yn wir, drwy feirniadu popeth trefol mae Joel Kotkin bellach yn rhagweld y bydd Americaniaid o leiaf yn 'siŵr o encilio i'r tir rhad, teithio unigol, ac ymdeimlad o ddiogelwch yn y maestrefi'. Mae lleisiau tebyg yn y DU ac yn wir yng Nghymru.

Yn fy marn i, nid yw'n glir a yw'r 'argyfwng COVID-19 i ddinasoedd' mewn gwirionedd mor radical neu mor barhaol â hyn ar gyfer pob dinas, hyd yn oed y dinasoedd mawr.  Nid ydym ychwaith wedi gweld llawer o'r dinasoedd mawr hyd yma yn ymladd yn ôl, yn ceisio ailgydbwyso trafodaeth, pwysleisio rôl hanfodol dinasoedd o'r fath mewn cyfoeth cenedlaethol, er bod un ymgais o'r fath ar y gweill yn Sydney o dan y faner 'mae'r ddinas yn ddiogel'. Mae angen i bobl ddychmygu byd ôl-covid o bersbectif un ag ymyraethau Iechyd effeithiol.

## HER ENW DA DINASOEDD MWY

Fodd bynnag, er bod rhai o'r dinasoedd dwysedd uchaf yn y byd, Singapore, Taipei a Hong Kong, mewn gwirionedd wedi dangos sut y gall dwysedd a rheolaeth effeithiol o COVID-19 gydfodoli, nid oes amheuaeth, mewn byd o Ardaloedd Busnes Canolog heb dorfeydd, swyddfeydd pellter cymdeithasol a thramwy torfol heb dorfeydd, bod cwestiynau'n codi am ddymunoldeb ac ymarferoldeb dinasoedd mawr yn benodol. Mae rhywfaint o dystiolaeth fach yn dod i'r amlwg o ran y rheini sydd â dewis o ran ble y gallant fyw a gweithio yn gadael dinasoedd o'r fath.  Yn amlwg, gall y newid a welsom tuag at weithio digidol ac o gartref gan lawer o weithwyr gwybodaeth – a drafodir yn fanylach isod –, os yw'n parhau, fod yn sail i'r gadael, a'i alluogi, er nad yw'n glir a fyddai'r duedd benodol hon, neu i ba raddau, yn goroesi wedi cyflwyno'r brechlyn neu driniaeth ar gyfer COVID-19, neu hyd yn oed flinder penodol weithio o gartref ymysg carfanau allweddol ynghyd â mwy o hyder o ran 'diogelwch y ddinas'.

Fodd bynnag, mae'r cafeat 'dinasoedd mawr' yn hanfodol ar gyfer unrhyw drafodaeth gytbwys ar ddyfodol cyffredinol dinasoedd a dyfodol Caerdydd yn benodol. Efallai y bydd COVID-19 yn cyflymu tuedd yr oeddem yn ei gweld fwyfwy yn rhyngwladol cyn 2020. Hynny yw bod twf yr ardaloedd metropolitan mwy, a oedd wedi bod yn arbennig yn ystod hanner cyntaf y degawd, yn arafu erbyn ei diwedd, gyda thystiolaeth bod demograffeg penodol eisoes yn dewis gadael craidd mewnol dinasoedd mwy, ar sail cost a safon byw, am faestrefi, ardaloedd cyn-drefol a dinasoedd llai.

Er ei bod yn amlwg yn rhy gynnar i farnu bod hyn yn codi'r posibilrwydd gwirioneddol y gallai hierarchaeth fwy gwastad o ddinasoedd ddod i'r amlwg ôl-COVID-19 gyda rôl gryfach ac atyniad gwell i ddinasoedd canolig a llai, lle gellir cydbwyso manteision trefol yn well gyda'r galw cynyddol am ofod ac amwynderau di-drefol.

Efallai mai'r canlyniad neu'r farn gytbwys yw nad yw'r dyfodol bellach yn bodoli gyda'r megaddinasoedd, ond yn hytrach gyda'r 'dinasoedd digon mawr' hynny sy'n cydbwyso cyfle ac amwynder yn well a chostau ac atyniadau dwysedd a chrynhoad.

## ARGYFWNG I DDINASOEDD MAWR – A 'GWAHANIAETH CAERDYDD' FEL DINAS SY'N ADDAS AR GYFER Y CYFNOD NEWYDD?

Yn y cyd-destun hwn, pa beryglon gwirioneddol bynnag a allai fod o'r dwyseddau yn y megaddinasoedd ar y llwyfan byd-eang, awgrymaf fod perygl penodol o ddinasoedd fel Caerdydd yn cael eu grwpio'n anghywir gyda dinasoedd o'r fath fel rhai sy'n peri'r un risg iechyd canfyddedig i grwpiau o'r fath pan fo ei dwysedd datblygu ei hun, preswyl a masnachol, yn llawer is na dinasoedd y gallai rhai ddyfalu eu bod yn 'risg uchel'.

Mae pob dinas yn cael eu rhoi yn yr un categori. Dinas yw Efrog Newydd. Ond nid Efrog Newydd yw pob dinas. Hynny yw, er bod COVID-19 wedi sbarduno dadl – a gellid dadlau bod hynny'n un angenrheidiol – am y perygl o heintiau mewn dinasoedd mawr neu fega poblog, nid oes fawr o sail i ryw fath o 'adwaith negyddol yn erbyn dinasoedd' o bob math a maint.  Mae angen mwy o naws a dealltwriaeth o'r graddau y gallai COVID-19 atgyfnerthu allanoldebau negyddol dinasoedd mwy ond mewn gwirionedd mae'n dwysáu gwerth rhai llai fel Caerdydd. Rwy'n credu bod y broblem ganfyddedig ynghylch dinasoedd mawr, tra'n llusgo pob math o ddinasoedd i lawr ar hyn o bryd, yn gyfle i ddinasoedd eilaidd a llai sydd â'r asedau cywir. Felly, a ddylai 'dyfodol ardaloedd trefol' fod yn gwestiwn teg i bob dinas? Mae'r adroddiad hwn yn cymryd y cynnig y byddwn yn gweld nid yn unig y potensial ar gyfer gadael dinasoedd ond hefyd gadael i rai y bernir eu bod yn fwy addas i'r cyfnod newydd sydd o'n blaenau o ddifrif – ac rwy'n credu y dylai Caerdydd weithredu'n gadarnhaol mewn perthynas â'r peth.

Mae'r adroddiad yn pwysleisio y gall Caerdydd fod yn ddinas o'r fath ac felly rydyn ni nawr yn troi at y cynnig hwn ac yn gwneud hynny heb rithdybiau. Mae yna heriau difrifol o'n blaenau hefyd.

Nid yw Caerdydd wedi'i chrynodi i'r graddau ei bod wedi profi'r diffyg twf a gafwyd mewn dinasoedd wedi'u gorgrynodi a waethygwyd wrth i COVID-19 daro, gan arwain at dystiolaeth o garfanau penodol yn ceisio gadael dinasoedd o'r fath. Felly, mae'r adroddiad yn gweld rhai cyfleoedd newydd ar gyfer dinasoedd graddfa fach, fel trefi a dinasoedd llai crynodol, fel Caerdydd, yn y cyfnod ôl-COVID-19. Felly'r sefyllfa ar gyfer Caerdydd ar drothwy COVID-19 yw hyn: cynnydd gwych: mwy i'w wneud. Yna daeth COVID-19 gyda'i her i'r union syniad o ddinas.

PENNOD 4

# Gwerthu Dinasoedd mwy, prynu Caerdydd? Cyfle y tu hwnt i'r argyfwng

Mae argyfwng COVID-19 wedi ysgogi pryderon sylweddol ynghylch natur fregus dinasoedd arbennig o boblog. Er bod dinasoedd fel arfer, yn hanesyddol, wedi dod yn ôl o bandemigau ac yn aml wedi dod yn ôl yn gryfach – 'Triumph of the City' gan Ed Glaeser – does dim amheuaeth bod argyfwng o ran enw da o COVID-19 sy'n effeithio ar ddinasoedd mawr.  Mae'r adroddiad hwn yn nodi y gallai dinasoedd fod fwy neu lai'n agored i ddenu neu hyrwyddo haint yn wrthrychol ond yn oddrychol mae ganddynt y gallu i wneud eu dinas yn fwy neu'n llai gwydn yn wyneb bygythiadau o'r fath – ac mae cael y gallu hwnnw'n debygol o wneud dinas yn fwy cystadleuol yn y trafferthion sydd o'n blaenau i sicrhau buddsoddiad a thalent.

Mae gan Gaerdydd, yn wrthrychol, raddfa a strwythur na allai ei gymhwyso fel megaddinas. Fel y gwelsom, roedd ei 'dinas-rwydd' yn rhywbeth yr oeddem yn gweithio arno. Mae ei phoblogaeth yn cyfateb i fwrdeistref fwy yn Llundain ond mae 31 o'r rheiny.  Os oes pryderon am dyrru swyddfa uchel ar ddwysedd uchel a COVID-19 – mwy canfyddedig na real fel y gwelsom – mae gan Gaerdydd gyfanswm o ddim ond 17 o adeiladau swyddfa a phreswyl dros 50 metr o uchder, y trothwy swyddogol i'w hystyried yn adeilad tal – a dim dros 100 metr gyda'r ddau dalaf yn 80 metr. Ei phatrymau preswyl amlycaf yw terasau dwysedd canolig mewn cymdogaethau agosach a hŷn a chartrefi maestrefol dwysedd is ychydig o gilomedrau ymhellach allan.

Er bod dyheadau i wella tramwy torfol, o ran pryderon y cyhoedd am foddau y canfyddir eu bod yn gyfrwng ar gyfer haint, nid oes ganddi system isffordd ac nid yw'n cynllunio un. Mae ganddi eisoes rwydwaith da o barciau a mannau agored mewn dinas sydd ag elfennau cerdded cryf mewn cymdogaethau agos er bod angen iddi ddarparu mwy i gymunedau ledled y ddinas. Mae ei hinsawdd yn fwyn, fel y mae ei gaeafau - sy'n helpu i atal effaith heintiau - ac wedi'i lleoli'n agos at lefelau cymedrol arfordir o lygredd atmosfferig, mae hynny hefyd yn helpu i ddiogelu'r rhai sydd â chyflyrau anadlol sylfaenol.

## MAE GANDDI LAI O ALLANOLDEBAU NEGYDDOL A CHYMYSGEDD UNIGRYW O FUSNESAU, AMWYNDERAU A CHWARAEON

Felly, nid yw Caerdydd wedi datblygu llawer o allanoldebau negyddol dinasoedd mawr tra'n adeiladu'n dda tuag at y math o weithgarwch, diwylliant, bwyd a phob math arall o ryngweithio dynol yr ydym yn chwilio amdano mewn dinasoedd.

Ychwaneger awyrgylch ac effaith unigryw digwyddiadau chwaraeon rhyngwladol mawr – rhywbeth y mae'n rhaid iddo, ac sy'n gallu bod, gyda dychymyg a chydweithio, gael ei sicrhau, ac mae gennych gynnig dinas unigryw yn datblygu, gyda mwy i ddod.

Ac er bod y data'n anodd ei gymharu rhwng Cymru a Lloegr nid yw afiachusrwydd COVID-19 Caerdydd wedi'i gwneud yn wahanol felly ar ei thaith i'r fersiwn dinas lai o ddinas-rwydd â safon byw dda, mae Caerdydd yn annhebygol o gael ei hystyried mor broblemus â rhai dinasoedd y gellir eu cymharu â hi.

## RYDYCH CHI'N MEDDWL BOD CAERDYDD YN LLE Â DWYSEDD UCHEL!? NID CROYDON NA MANHATTAN MO CAERDYDD

P'un a yw dwysedd yn ffactor allweddol yn 'lledaenu' COVID-19 ai peidio, nid yw Caerdydd mewn unrhyw ystyr gymharol yn lle â dwysedd uchel, naill ai mewn modd preswyl nac o ran tyrau swyddfa uchel.
Y newyddion da pellach o hynny yw y gall felly wrth alluogi datblygiad o'r pwynt hwn sicrhau bod adeiladau a seilwaith wedi'u cynllunio i safonau sy'n gwrthsefyll COVID-19: bonws gwirioneddol ar gyfer dyfodol trefol diogel.

Os oedd dinasoedd â dwysedd uchel yn risg pandemig – heb eu profi eto – nid yw Caerdydd yn y bôn yn ddinas o'r fath ac nid oedd ar y ffordd i fod felly. Nid Wuhan, Milan, na hyd yn oed Hackney neu Camden mohoni. Mae gan Gaerdydd ychydig dros chwarter dwysedd poblogaeth bwrdeistrefi tebyg yn Llundain. Mae Caerdydd mewn gwirionedd yn is o ran dwysedd preswyl a hefyd yn is o ran dwysedd eiddo tiriog masnachol na Copenhagen, “yr” enghraifft ar gyfer dwysedd yn cael ei gynllunio’n dda a chynllunio trefol da.

## BYDD TALENT A BUDDSODDWYR YN NODI SUT MAE DINASOEDD YN RHEOLI'R ARGYFWNG HWN

Felly, mae gan Gaerdydd asedau sy'n helpu ei pherfformiad cymharol. Yn oddrychol, gyda’r strategaeth gwydnwch ac adfywio’r ddinas gywir, a gwaith marchnata effeithiol o’r photensial ar ôl yr argyfwng, gall y Cyngor a'i bartneriaid ddewis adeiladu ar yr asedau hyn a gall gryfhau'r ddinas ymhellach a thrwy wneud hynny sefydlu ei brand fel dinas enghreifftiol sy'n gwrthsefyll risgiau acíwt i iechyd y cyhoedd.

Mae pa mor dda y canfyddir bod gwahanol ddinasoedd yn ymdrin â gwahanol gamau'r pandemig a’r cyfnod pontio yn amlwg wedi dod yn destun craffu newydd ac acíwt. Rwy'n credu y dylai'r Cyngor a'i bartneriaid dybio y bydd dinasoedd yn cael eu barnu a'u graddio'n gymharol gan fusnesau, buddsoddwyr a thalent ar gymhwysedd a llwyddiant eu rheolaeth o’r argyfwng a’r cyfnod pontio. Mae hon yn gystadleuaeth lle gallant fod yn gystadleuol yn rhyngwladol.

***Rhaid i Gaerdydd wahaniaethu ei hun***

Felly, rhaid i Gaerdydd wahaniaethu ei strategaeth a'i brand o stori'r dinasoedd generig wrth symud ymlaen. Nid dim ond er mwyn amddiffyn ei henw da presennol ond hefyd er mwyn cyflwyno ei chynnig o'r newydd wrth iddi ddatblygu ei dull dinas enghreifftiol ôl-COVID-19. Mae COVID-19 yn awgrymu y gallai fod newidiadau i ddaearyddiaeth atyniad talent a photensial ar gyfer patrymau buddsoddi newydd y gallai dinasoedd 'eilaidd' – fel Caerdydd – gyda'r dull cywir fanteisio arnynt.

Er gwaethaf yr ymosodiadau ar 'yr ardaloedd trefol' yn gyffredinol, rwy'n amau y bydd y cwestiynau mwyaf yn ymwneud â'r megaddinasoedd a oedd eisoes yn profi allanoldebau negyddol twf yn y cylch blaenorol. Mae'n bosibl y bydd gan y dinasoedd llai ond 'digon mawr' sydd â'r asedau, yr amgylcheddau a'r strategaethau cywir botensial mawr ar gyfer llwyddiant newydd yn sgil COVID-19: dyna'r rhagdybiaeth y dylai dinasoedd o'r fath ei dilyn. Efallai mai nhw mewn gwirionedd yw'r union fath o ddinasoedd lle gall y rhai sy'n pryderu am allanoldebau negyddol y megaddinasoedd, a atgyfnerthwyd gan ofnau COVID-19, ddewis adleoli. Efallai mai nhw hefyd yw'r dinasoedd, oherwydd eu maint a'u hundod, lle gellir casglu clymblaid effeithiol o sectorau cyhoeddus, preifat a di-elw i rannu'r newid i ddyfodol trefol cadarnhaol ar ôl COVID-19. Bydd adfer optimistiaeth am ddyfodol dinasoedd yn cael ei arwain gan ddinasoedd o'r fath.

***Cyflwyno'r achos dros y dinasoedd llai: cyfle Caerdydd***

Mae'n amlwg o ystyried y ddadl drefol or-syml yr ydym wedi'i gweld, fod angen i Gaerdydd ddod allan o'r ymosodiad cyffredinol ar ddinasoedd i osod ei model dinas unigryw, ei gwydnwch cymharol eisoes yn nhermau iechyd y cyhoedd, ei manteision parhaus nawr fel dinas a'i chynlluniau i gynllunio dyfodol mwy hyderus fyth i brifddinas Cymru wrth symud ymlaen.

Gosododd Rowan Moore, adolygydd pensaernïaeth y Guardian, y naws gywir pan bwysleisiodd y bydd cyfuniad o 'wthiad' COVID-19 a 'thyniad' gweithio o gartref a alluogir gan dechnoleg yn effeithio ar ddewisiadau lleoliadol y rhai sydd â dewis. Ei drosolwg yw hyn: 'gwerthu'r megaddinas, prynu dinas lai'.

Mae ei gasgliad yn gytbwys ac yn briodol yn fy marn i: '... efallai nad yr  ymateb gorau yw rhuthro oddi wrth bopeth trefol, ond ailddosbarthu o un math o ddinas i'r llall'. Mae Moore yn gofyn 'Beth os ceir newid mewn dwyster i ffwrdd o'r dinasoedd mwyaf tuag at y lleill?', 'Beth os?', yn wir.

Mae Moore yn gweld cyfle i lywio potensial datganoli'r pandemig tuag at drefi a dinasoedd sydd eisoes â llawer neu'r rhan fwyaf o'r 'hyn y mae'n ei gymryd i gefnogi cymunedau hynod lwyddiannus, ond a allai wneud gydag ychydig mwy o egni economaidd a chymdeithasol'- ac yn wir, ychydig mwy o gefnogaeth ac arloesedd polisi cyhoeddus. Rwy'n cytuno ac mae'r adroddiad yn cefnogi'r farn, os oes rhywfaint o symud i ffwrdd o fegaddinasoedd, mai'r gyrchfan i'r rhan fwyaf – a'r dyfodol y dylai gwneuthurwyr polisi anelu ato – fydd y 'ddinas ar raddfa ddynol' ac nid y maestrefi allanol na'r 'wlad'.

Mae gan y ddinas honno fanteision dwysedd a reolir yn dda a llai o'i allanoldebau, felly, ydy, mae'n llai costus, ond hefyd yn fwy diogel, yn lanach ac yn wir yn wyrddach, gan alluogi'r cydbwysedd gwell hwnnw rhwng swyddi a'r cartref, safon byw a chynhyrchiant, natur a datblygiad, undod cymdeithasol a datblygiad unigol, ac iechyd meddwl a chorfforol a lles, a geisir fwyfwy gan gymunedau.

Nid dinas dwysedd ar unrhyw gost mo'r ddinas honno, ac nid dwysedd isel mo'r ateb: ond 'dinas â'r dwysedd cywir' ôl-COVID-19. Pan gaiff ei wneud yn iawn, mae gan ddwysedd trefol, yn hytrach na bod yn alluogwr canfyddedig neu wirioneddol o argyfwng bio-feddygol, 'fanteision amddiffynnol'.  Mae'n ychwanegu at ansawdd trefoli ac yn lleihau'r anghydraddoldebau strwythurol sydd wrth wraidd problemau iechyd.  Felly mae trigolion sy'n byw mewn ardaloedd trefol â'r dwysedd cywir yn cerdded mwy i wasanaethau, siopau ac ysgolion ac mae dau ddegawd o ddata yn dangos bod yr hygyrchedd cerdded cynyddol hwn yn lleihau nifer yr achosion o glefyd y galon, diabetes a gordewdra: y 'cyflyrau sylfaenol' hynny sydd wedi gwneud rhai carfanau ac ardaloedd yn fwy agored i COVID-19, ac i'w effaith fwyaf andwyol, nag eraill.

Mae honno'n wers wirioneddol o ran sut i lunio dinasoedd i Gaerdydd ddysgu ohoni, ond hefyd i wella ar ei llwybr tuag at fod yn ddinas lle mae canlyniadau iechyd y cyhoedd yn ganolog i'w strategaethau ar gyfer lle a phobl. Bydd dinasoedd sy'n galluogi neu'n hyrwyddo cerdded a beicio yn arwain at fwy o bobl sy'n 'heini a hapus' gan fod cysylltiad cadarnhaol rhwng cerdded a Cynnyrch Domestig Gros uwch a chanlyniadau academaidd gwell yn ogystal â gwell iechyd y cyhoedd. Mae llawer o'r anghydraddoldeb iechyd mewn dinasoedd yn gysylltiedig â mynediad anwastad – 'gofodol anghyfiawn' – i gymdogaethau cerddadwy a beicadwy  neu rwydweithiau tramwy torfol i gerdded iddynt. Mae'r ddinas gerddadwy a beicadwy yn fwy gwydn, iachach ac yn fwy cynhwysol mewn pandemig.



Bydd dinas o'r fath yn dod â manteision iechyd ac economaidd gwell i'w dinasyddion ond hefyd yn ddeniadol yn y farchnad ddinas ôl-COVID-19 newydd ar gyfer talent a buddsoddiad. Yn fy marn i, Caerdydd yw a fydd y ddinas honno.

Y ddinas honno yw'r ddinas gynhwysol, cynhyrchiol â safon byw dda o deithiau byr rhwng swyddi, cartrefi ac amwynder; y ddinas o gysylltedd rhithwir a chorfforol mawr rhwng ei chanol, ei nodweddion blaenoriaeth, ei safleoedd niferus, amrywiol, blaenllaw, ei chymdogaethau cynaliadwy a'i chalon ranbarthol. Y ddinas, sy'n dod ag arbenigwyr iechyd y cyhoedd i'r bwrdd dylunio a chynllunio trefol i gynnig persbectif newydd ar nodweddion dylunio cymdogaethau sy'n hyrwyddo lles corfforol a meddyliol. Y ddinas lle nad dwysedd ar unrhyw gost oedd y nod, ond dwysedd wedi'i wneud yn dda. Mae'r ddinas ar raddfa ddynol – y ddinas ddigon mawr – yn iawn ar gyfer y cyfnod, yn wydn yn wyneb her. Gallech ei galw'n Gaerdydd 2040.

## DINASOEDD AR BWYNT FFURFDRO: MAE'R CYNGOR YN GWELD FFYRDD NEWYDD O WEITHIO A MEDDWL

Yn gyffredinol, mae dinasoedd wedi cyrraedd pwynt ffurfdro, lle mae ffyrdd newydd o weithio a gweithredu yn dod yn bosibl os nad yn orfodol, mae cyfleoedd i dreialu polisïau newydd yn dod i'r amlwg, a lle mae'r disgwyliadau sydd gan ddinasyddion, busnesau, talent, ymwelwyr a llywodraethau am ddinasoedd yn newid.  Ac mae cymdeithas sifil yn troi at arweinyddiaeth dinasoedd nid dim ond llywodraethau cenedlaethol am ysbrydoliaeth ac arweiniad mewn argyfyngau o'r fath oherwydd eu bod yn gwybod y bydd ein trefi a'n dinasoedd yn wahanol o ganlyniad i'r argyfwng hwn ond hefyd gan y byddant yn ganolog i'r ymdrech enfawr i adfer yr economi sydd ei hangen.

## AMDDIFFYN MANTEISION A MANTEISION CYMHAROL Y DDINAS: DEFNYDDIO EI HASEDAU MEWN OES NEWYDD

Mae'n bwysig bod Caerdydd a'i phartneriaid yn amddiffyn manteision y ddinas i'r ddinas-ranbarth a Chymru gan ei bod yn ddinas ond eto'n gwahaniaethu'n gyhoeddus ei ffurf ar ddinas – a'r ffurf y bydd yn ei chymryd – o'r dinasoedd mwy a'u allanolebau negyddol canfyddedig y mae COVID-19 wedi tynnu sylw atynt ac wedi'u hatgyfnerthu o bosibl. Dylai hefyd dynnu sylw at ffyrdd y mae'r argyfwng yn amlygu rhai tueddiadau yn atyniadau marchnad cymharol lleoedd ar wahân i'r megaddinasoedd ac yn benodol bod cynnig Caerdydd o ran buddsoddiad, talent a'i chymunedau ei hun yn un o ansawdd uchel nawr gyda gwell i ddod. Mae Caerdydd o'i chymharu â'r rhan fwyaf o Ddinasoedd Craidd a megaddinasoedd eisoes yn fodel glanach, gwyrddach, dwysedd is, llai, iachach o ddinas sydd â chymeriad unigryw ac uchelgais i wella ymhellach yn ôl yr angen i fod yn wydn ac yn llwyddiannus yn y byd ar ôl 2020.

Mae asedau a graddfa Caerdydd yn unig yn rhoi'r cyfle: mae angen i'r strategaeth sydd ei hangen i fanteisio ar y cyfle fod ar waith ac mae gan y Cyngor ei hun y capasiti a'r adnoddau sydd ar waith i gefnogi'r gwaith cyflawni ond hefyd gyda'r holl bartneriaid a chydweithredwyr angenrheidiol o'r sectorau cyhoeddus, preifat a di-elw yn rhannu’r un weledigaeth a dull gweithredu. Y broblem yw sut mae’r ddinas – drwy ei strategaeth, ei chapasiti a'i hadnoddau ei hun a rhai partneriaid sydd am rannu'r daith – bellach yn troi'r uchelgais a'r potensial hwnnw'n realiti newydd, gan oresgyn rhwystrau problemus a manteisio ar gyfleoedd allweddol o'r radd orau.

PENNOD 5

# Rheoli canol dinas sy'n newid wrth i dair her gydgyfeirio – a chryfhau canolfannau lleol ar draws y ddinas

Mae'r adran hon yn adolygu tystiolaeth a syniadau ynghylch dyfodol manwerthu, gwaith a swyddfeydd a digwyddiadau yng Nghaerdydd. Mae'n gwneud awgrymiadau ynghylch adnewyddu a 'churadu' canol y ddinas/ABG yng nghyd-destun trafodaeth ehangach am strwythur cyffredinol Caerdydd yn y dyfodol fel dinas 15 munud o bosibl.

Wrth i COVID-19 daro roedd pryderon cyffredinol mewn dinasoedd ym mhobman am dueddiadau oedd ar y gweill cyn COVID-19 ond sydd wedi cael eu cyflymu yn ei sgil. Y rhain yw'r newid i weithio digidol / gweithio gartref a'r cynnydd mewn manwerthu ar-lein. Ychwaneger at hyn fater unigryw Caerdydd o gael stadiwm o'r radd flaenaf yng nghanol y ddinas a'r goblygiad cysylltiedig ar gyfer hyn i gyd ar gyfer y sector lletygarwch yn y lle arbennig hwn – ac mae gennych storm berffaith bosibl o heriau i ganol dinas / ABG fel hon.
Mae hyn yn her sylweddol o ran rheoli a 'churadu' canol y ddinas i'r Cyngor. Bydd angen adnoddau, gallu a ffocws sefydliadol, cydweithrediadau a dychymyg – a thros y tymor hwy – i ddelio'n llwyddiannus â'r her hon.

## Manwerthu

Manwerthu yw'r sector sydd, mae'n debyg, wedi profi'r 'sioc negyddol' fwyaf o COVID-19 - ar ben ei heriau cyn y pandemig: mae newid dramatig ar y gweill a'r hyn a alwyd yn 'Amazoneiddiad' o gadwyni cyflenwi a logisteg yn ein dinasoedd. Bydd angen i ddinasoedd ym mhobman reoli newidiadau o'r fath a bydd cynghorau'n gweithio gyda landlordiaid a fydd eu hunain yn gorfod bod yn fwy creadigol a rhagweithiol am eu hasedau a'u tenantiaid. Mae'r newid o 'brics i glics' a ysgogwyd gan COVID-19 yn fygythiad o'r tu allan i'r stryd fawr a chanol dinasoedd – ac mae angen ymateb pendant iddo gan glymblaid o'r sefydliadau perthnasol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat gyda'r Cyngor yn arwain y ffordd. Mae amrywiaeth o ddulliau creadigol yn cael eu nodi yn yr adroddiad, creu parthau ar gyfer defnyddiau cymysg ac ailgynllunio adeiladau'n fewnol i fywiogi mannau cyhoeddus yn allanol.

Bydd angen i'r newid hwn fod yn ffocws craidd i unrhyw ddinas wrth symud ymlaen. Mae cyfleoedd gwirioneddol i arallgyfeirio canol dinasoedd a'u gwneud yn fwy deniadol ac apelgar i fwy o gynulleidfaoedd, a defnydd mwy cymysg – ond bydd angen dychymyg a chapasiti i helpu i bontio'n llwyddiannus. Bydd angen i'r Cyngor arwain y gwaith o 'guradu' ecosystem ABG / canol y ddinas, gan weithio gyda'r sector preifat a haenau eraill o lywodraeth.

Bydd yr un peth yn wir am effaith newidiadau i sylfaen cwsmeriaid caffis, bariau a bwytai a bydd angen i gynghorau fod yn hyblyg ac yn greadigol o ran trosglwyddo defnyddiau ond hefyd wrth gynorthwyo'r sector i dyfu allan ar y strydoedd hyd yn oed yn fwy. Bydd angen i Gaerdydd weithio'n greadigol gyda'r sector i adfer momentwm neu i ddod o hyd i ffyrdd eraill o sicrhau bywiogrwydd ar y stryd, gyda'r nos ac yn ystod y dydd. Unwaith eto, dangosodd adnodd a blaenoriaeth strategol gwaith Caerdydd dros y blynyddoedd i hyrwyddo strydoedd bywiog a rennir yng nghanol y ddinas yr hyn y gellir ei wneud – a bydd angen adeiladu ar hyn yn greadigol. Mae gan Faer Barcelona slogan mewn cyd-destun arall a ddylai ysbrydoli ein cyd-ddeallusrwydd o amgylch y broblem allweddol hon: 'Llenwch y strydoedd gyda bywyd'.

Rhaid i'r Cyngor ddatblygu'r gallu i guradu canol y ddinas yn y tymor hir – gyda'r Cyngor yn datblygu ei adnoddau ei hun ond hefyd yn rhannu adnoddau mewn cydweithrediad â'r sector preifat, sefydliadau diwylliannol a mentrau a Llywodraeth Cymru. Gellir ystyried cefnogi Ardal Gwella Busnes y ddinas i ganolbwyntio ar adferiad yng nghanol y ddinas ar ôl COVID-19, yn ogystal ag offer cyllidol eraill.

## POSIBILRWYDD O BELL: GWEITHIO GARTREF A DYFODOL SWYDDFEYDD

Mae'n amlwg bod y newid i weithio gartref i atal yr haint hefyd wedi cael effaith radical. Nid yw'n glir pa mor radical dros y tymor hir nac a fydd dyfodiad brechlyn yn adfer defnydd swyddfeydd yng nghanol dinasoedd. Fel realydd / optimist, gwnaed gormod o'r sylwebaeth ar ddyfodol swyddfeydd ar ddechrau'r cyfyngiadau a phan oedd llawer yn gweithio  gartref cyn i brydleswyr swyddfa, defnyddwyr a gweithwyr ddod dros y sioc o'r ffordd newydd, profi unrhyw effeithiau negyddol o weithio gartref neu ddechrau meddwl yn greadigol am sut i ail-ddyfeisio swyddfeydd y ddinas: mae'r ymdeimlad a'r ymateb wedi bod yn symud wrth i gyfyngiadau fynd rhagddynt a dechreuodd cwmnïau a gweithwyr ddarganfod rhai o'r diffygion mewn gweithio gartref. Er bod y newid i lawer mwy o weithio gartref wedi bod yn sylweddol a bydd llawer ohono'n parhau, gan greu rhai ffeithiau hirdymor newydd pwysig i ddinasoedd gynllunio ar eu cyfer - a rhai cyfleoedd ar gyfer yr hyn yr wyf wedi'i alw'n 'ddinas ar raddfa ddynol' i fanteisio arnynt, mae gormod o'r meddylfryd a sylwebaeth ar y pwnc hwn wedi bod yn gynamserol ac yn or-syml.

## 'MAE'R DDINAS YN DDIOGEL': GWRTHDUEDD CADARNHAOL?

Mae'r adroddiad yn ceisio osgoi tynghediaeth neu honni bod y 'normal newydd' yn awgrymu terfyn llwyr ar weithio mewn swyddfeydd ABG. Nid dyna'r achos. Ac wrth gwrs, wrth ysgrifennu, mae rhai llywodraethau rhyngwladol sy'n pryderu am yr argyfwng economaidd sy'n wynebu eu Hardaloedd Busnes Canolog ac felly eu cenhedloedd, wedi dechrau ymgyrchu i berswadio gweithwyr o bwysigrwydd a manteision gweithio mewn swyddfeydd ac yn wir i dynnu sylw at rai o ganlyniadau economaidd ac iechyd andwyol gweithio gartref. Yn New South Wales yn Awstralia, mae'r Llywodraeth bellach yn ceisio perswadio staff y sector cyhoeddus

a'r sector preifat i fynd yn ôl i ABG Sydney o dan y slogan o: 'Mae'r ddinas yn ddiogel', gyda Thrysorydd NSW yn dweud 'mae angen i ni nawr ddechrau dychwelyd ein dinas yn ddiogel i sylfaen fwy normal'.

Wrth gwrs, mae rhai cwmnïau yn y lleoliadau gwerth uchaf yn dechrau meddwl, os nad oes unrhyw un yn dod i'r swyddfa, pam mae angen i'r gweithiwr fod yn Llundain pan ellid eu cyflogi ar gyfradd rhatach mewn mannau eraill? Fel yr ydym wedi awgrymu: gallai hynny fod yn gyfle i Gaerdydd, ond dim ond os gall Caerdydd wahanu ei hun oddi wrth yr anniddigrwydd cyffredinol y canfyddir ei fod yn effeithio'n arbennig ar y dinasoedd mwy, a chreu strategaethau effeithiol a chyfunol i ddatblygu a marchnata'r cynnig Caerdydd ôl-COVID-19.

Mae'n annhebygol y bydd llawer o gwmnïau'n parhau i ganiatáu i'r holl staff weithio gartref am bum diwrnod yr wythnos, ond gall dau ddiwrnod yr wythnos ddod yn gyffredin, gyda gweithwyr yn rhannu eu hamser rhwng pencadlys yng nghanol y ddinas ar gyfer rhai swyddogaethau a chydweithio a naill ai eu cartref fel ar hyn o bryd neu'r math o fannau cydweithio lleol, cymdogaeth neu ganolfannau bach yr ydym yn dechrau eu gweld yn dod i'r amlwg, ac y byddwn yn gweld mwy ohonynt wrth symud ymlaen. Yn syml, 'Mae gweithio gartref yma i aros, ond nid i bawb nac ar gyfer bob diwrnod gwaith'. Mae'r adroddiad yn pwysleisio bod hyn yn golygu y bydd angen i'r Cyngor ddatblygu system eco ddeinamig yng nghanol y ddinas gyda phartneriaid yn y sector preifat a'r brifysgol gydag arlwy manwerthu a swyddfa wedi'i drawsnewid, ond hefyd gryfhau potensial economaidd safleoedd allweddol eraill a chanolfannau defnydd cymysg ar draws y ddinas, gan sicrhau rhwydwaith trafnidiaeth effeithlon, yn cysylltu'r 'prif ganolfan' a'r 'lloerennau'. Mae'r adroddiad yn awgrymu bod rhywfaint o symud i'r cyfeiriad hwn ar y gweill yn sgil COVID-19 a bod gan Gaerdydd strwythur y gellid ei ddatblygu ymhellach i'r cyfeiriad hwn gyda'r strategaeth a'r buddsoddiadau cywir mewn creu lleoedd a thrafnidiaeth: ond gyda'r cafeat cryf, mewn unrhyw fodel Prif Ganolfan a Lloerennau bod rhaid i'r 'ganolfan' – canol dinas Caerdydd – barhau i fod yn flaenllaw ac yn gryf er ei bod wedi newid.

## DIGWYDDIADAU YN Y BRIFDDINAS

Y drydedd her wrthrychol i ganol y ddinas ac un sy'n benodol i Gaerdydd o ystyried ei digwyddiadau unigryw a'i chynnig diwylliannol, a phwysigrwydd hynny'n fasnachol ac o ran enw da, yw galluogi stadiwm sydd yng nghanol y ddinas i weithredu'n llwyddiannus ac i reoli llifau sylweddol o bobl mewn cyfnod newydd o bryderon iechyd y cyhoedd. Mae'n eithaf hanfodol bod strategaeth benodol sy'n canolbwyntio ar Gaerdydd wrth fynd ymlaen â'r elfen allweddol hon o atyniad a gweithrediad y ddinas ar gyfer digwyddiadau – strategaeth sydd wrth gwrs yn cynnwys lleoliadau eraill sy'n denu cynulleidfaoedd mawr ar gyfer, dyweder, digwyddiadau diwylliannol, adloniant neu fusnes.

Mae strategaeth gadarn wedi'i thargedu yn hanfodol a gall fod yn llwyddiannus. Mae'r adroddiad yn adolygu mentrau gan stadia a lleoliadau ac yn croesawu ysbrydoliaeth o Awstralia a Seland Newydd. Chwaraewyd rownd derfynol pêl-droed yr Aussie Rules ddiwedd mis Hydref 2020 mewn stadiwm yn Queensland gyda 30,000 o gefnogwyr yn bresennol er bod Llywodraeth Gorllewin Awstralia wedi cynnig darparu Stadiwm Perth ar gyfer y gêm ar ei chapasiti llawn o 60,000. Ac os oedd amheuaeth y gellir adfer stadia rygbi cenedlaethol eiconig mewn dinasoedd mawr i gapasiti agos at lawn dylai'r gêm ddiweddar rhwng yr All Blacks a'r Wallabies yn Stadiwm Sky (capasiti o 34,500) ein sicrhau.

Ac nid lleoliadau chwaraeon yn unig: o ganol mis Hydref 2020, agorodd Arena Spark yn Auckland, arena â chapasiti o 12,000 ar gyfer chwaraeon ac adloniant, eto i ddarparu ystod lawn o ddigwyddiadau, gan gynnwys digwyddiad gyda'r artist o Seland Newydd, Benee a digwyddiad bocsio ar 17 Hydref lle gwerthwyd pob tocyn.

Er gwaethaf y flwyddyn hon o argyfwng, unwaith y bydd heintio cymunedol yn cael ei atal bydd cynulleidfaoedd yn awyddus i ddychwelyd. Mae'r adroddiad yn pwysleisio y bydd chwaraeon a cherddoriaeth yn rhannau allweddol o frandio 'dinas iach' ar gyfer y ddinas enghreifftiol ôl-COVID-19 wrth symud ymlaen. Byddai hefyd yn adlewyrchu'r ffocws gwell ac amserol y mae'r Cyngor yn ei fabwysiadu ar gerddoriaeth ac ar feithrin enw da am dalent a dyfir gartref, gan gynnwys yr ymrwymiad parhaus tuag at ddarparu Arena Dan Do a chychwyn digwyddiad unigryw ar gyfer Caerdydd i gofleidio safle'r ddinas fel cyrchfan flaenllaw yn y DU ar gyfer chwaraeon a cherddoriaeth.

## CURADU CANOL Y DDINAS A PHWYSIGRWYDD NEWYDD STRATEGAETH ECONOMI NOS GREADIGOL

Beth bynnag yw union ffurfweddiad y gweithgareddau a'r busnesau yng nghanol y ddinas / ABG yn dilyn yr argyfwng hwn, rhaid i ni dybio y bydd rhaid i'r Cyngor a chydweithredwyr wneud mwy i ddenu pobl i ganol y ddinas y maent i gyd eisoes wedi buddsoddi'n helaeth ynddi. Bydd angen strategaethau ac adnoddau newydd. Bydd angen ffocws, capasiti a 'phecyn cymorth' o'r newydd o ymyriadau ar gydgysylltu a 'churadu' 'lle' gan y Cyngor: mae'n rhaid cael y rhain nawr, yn hytrach na'u dymuno.

Ac wrth gwrs, mae llefydd yn newid o fore i nos. Bydd yr ymdrech a'r pecyn cymorth i lunio dyfodol hirdymor canol dinas yn cynnwys mesurau arbennig i ysgogi economi'r nos newydd Wrth ddilyn strategaeth o'r fath mae gan Gaerdydd gyfle i fod yn esiampl ar y llwyfan rhyngwladol ar gyfer dinas o'r maint hwn – a dylai fanteisio ar y cyfle hwnnw.

## CODA: ABG CAERDYDD O'R NEWYDD

Dylai fod yn glir fy mod yn hyderus, gyda'r strategaethau a'r cydweithrediadau cywir, y gwelwn ganol dinas a ABG newydd yng Nghaerdydd y bydd eu 'cynnig' yn cael ei ailddatgan lle y gellir, a'i ail-ddychmygu lle mae angen gwneud hynny. Ond bydd yn rhan o strategaeth ar gyfer dinas fwy cynhwysol, gwydn a chytbwys sy'n cadw craidd bywiog ond sydd hefyd yn gweld rhywfaint o ddosbarthu gweithgarwch economaidd ar draws y ddinas. Mae'r cyfyngiadau symud wedi atgoffa pobl o rinweddau ardal neu ganol dinas leol, y gellir cerdded ynddi ac mae rhywfaint o awydd ym mhobman i ddatblygu canolfannau lleol dinas i fod yn rhai â mwy o ddefnydd cymysg os yn bosibl. Felly, mae'r adroddiad yn nodi gweledigaeth ar gyfer canol dinas fywiog, wedi'i hadnewyddu a mwy amrywiol yn cael ei chysylltu'n well gan deithiau aml-foddol byr i ganolfannau defnydd cymysg ar lefel fwy lleol. Rwy'n gweld y craidd canolog addasedig hwn gyda 'lloerennau' lleol cryfach yn debygol o ddod i'r amlwg fel model a ffefrir yn rhyngwladol ond hefyd fel rhywbeth y gallai Caerdydd ei wireddu i ansawdd uchel. Mae hwn yn fodel sy'n thema bwysig sy'n deillio o COVID-19 a bydd yn denu pobl i ddinasoedd a all gyflawni hyn. 'Caerdydd fel dinas 15 munud'. Hynny yw, dinas y gellir teithio rhwng y Gogledd a'r De neu'r Dwyrain a'r Gorllewin yn y cyfnod hwnnw, yn aml-foddol, gan gynnwys drwy rwydwaith rheilffyrdd cryfach a seilwaith trafnidiaeth weithredol sy'n gysylltiedig â 'phentrefi' defnydd cymysg lleol a chanolfannau sydd eu hunain yn ganolfannau ar gyfer teithiau byr lleol.

PENNOD 6

# Caerdydd fel dinas enghreifftiol ôl COVID-19?

Er y bydd dinasoedd yn anochel yn wahanol o ganlyniad i'r argyfwng hwn, byddai'n ffôl gwadu y byddant yn parhau'n ganolog i'r ymdrech fawr i adfer yr economi sydd o'n blaenau. Pryd bynnag y mae 'y ddinas' wedi cael ei herio o'r blaen gan bandemig neu newidiadau sylweddol mewn dewisiadau diwylliannol neu newidiadau o ran anghenion economi, mae bob amser wedi llwyddo i fynd un cam yn ôl ond dau gam ymlaen. Mae wedi ailgynllunio ei hun i oroesi. Mae wedi bod yn wydn, gan daro'n ôl yn gryfach ar ôl amgyffred gwersi o fygythiadau blaenorol. Gwrth-fregus.

Mae'r dinasoedd gorau'n deall yr hyn yn eu dinas y gellir ei ailgychwyn, ailfeddwl beth sydd angen ei ailfeddwl, ac adnewyddu'r hyn sydd angen ei newid. Mae meddwl y cyhoedd yn symud i feddylfryd 'byw gyda/bywyd ar ôl' sy'n gysylltiedig â sicrhau'r dyfodol economaidd ac iechyd, rydym yn gweld pobl yn dechrau adennill eu dinas. Ac yn fuan – rwy'n siŵr – byddwn yn gweld yr arweinwyr hynny sy'n dymuno sicrhau eu bod yn ennill cystadleuaeth newydd am fuddsoddiad a thalent, yn hawlio eu dinas newydd fel cyrchfan fywiog ond diogel sy'n gallu gwrthsefyll bygythiadau yn y dyfodol.

Felly dylai Caerdydd wneud yr hyn y mae'n ei wneud sef paratoi, gyda'i chydweithwyr, ei chymunedau a'i busnesau ar gyfer y dyfodol trefol nesaf. Rwy'n credu bod ganddi botensial cadarnhaol iawn fel dinas ar raddfa ddynol enghreifftiol ôl-COVID-19. Yn amlwg bydd heriau cyllidebol o'n blaenau a bydd angen dod o hyd i adnoddau newydd. Ond mae gan arweinwyr lleol a'u timau datblygu economaidd rôl enfawr o'u blaenau i lunio a chefnogi'r adferiad hwn, ac i adeiladu economïau a dinasoedd gwell, tecach, mwy gwydn, cynaliadwy a chynhyrchiol. Mae gan Gaerdydd yn y cyd-destun hwn heriau ond hefyd cyfleoedd, ac nid yw llawer ohonynt ar gael i fegaddinasoedd sydd dan bwysau ar hyn o bryd.

## ATGYFNERTHU HANFODION Y 'DDINAS DDA'...

Ar un lefel mae COVID-19 yn atgyfnerthu rhai o hanfodion y 'ddinas dda', un sy'n iach ac yn braf i fyw ynddi. Mae'n ein hatgoffa o bwysigrwydd pethau syml fel aer glân, mannau cyhoeddus, parciau, ardaloedd gwyrdd yn eich cymdogaeth a sut maent yn denu pobl i ddod i'r ddinas, ac yn cymell pobl i aros mewn dinas. Fodd bynnag, rhaid cael datblygiadau arloesol. Mae COVID-19 yn magu rhywfaint o awydd am feddylfryd newydd sy'n sicrhau ansawdd bywyd gwell tra'n diogelu cynhyrchiant, cynhwysiant cymdeithasol a'r amgylchedd.

## ... TRA'N CREU SYNIADAU NEWYDD AR STRATEGAETHAU A LLYWODRAETHU INTEGREDIG, GAN GYNNWYS POBL A 'LLEOEDD'

Wrth i sioc yr argyfwng ildio i gynllunio'r dyfodol, byddwn yn gweld meddylfryd ôl-argyfwng yn troi at feddylfryd newydd ar strategaethau integredig er mwyn cryfhau gwydnwch ein dinasoedd yn sylweddol a sut y gallant ddod yn fwy cynhwysol, hygyrch, gwyrddach, mwy cylchol a doethach. Bydd rhan o'r meddylfryd newydd hwn yn ymwneud â chynnwys y Cyngor yn well wrth helpu i sicrhau cyfleoedd iechyd, lles, sgiliau a chyflogaeth y bobl y maent yn atebol iddynt. Bydd rhan ohono'n ymwneud â rôl fwy byth yn yr hyn y gellid ei alw'n 'stiwardiaeth' a 'churadu' lle'. Mae'r adroddiad yn pwysleisio'r rôl hon o ran adferiad.

## MEWN SEFYLLFA WELL AR ÔL COVID-19: DWYSÁU RÔL Y CYNGOR FEL 'CURADUR LLE'

Yn sail i'r adroddiad hwn mae'r syniad o 'le' a chanolder llunio lleoedd, a gwneud lle i lwyddiant yn y ddinas wydn ôl-COVID-19. Mae hyn hefyd yn golygu cydnabod rôl llywodraeth leol nid yn unig o ran cynllunio lleoedd – er mor hanfodol yw'r rôl honno – ond yn yr hyn y gellid ei alw'n 'curadu lle'. Yn ogystal â darparu gwasanaethau o ansawdd a theg i'r gymuned a chynllunio statudol, mae bod yn 'guradur' y ddinas a'i hardaloedd, ei chymdogaethau a'i chanolfannau allweddol, yn swydd swyddogaethol craidd yn y cyngor, neu dylai fod. Yn allweddol i'r broses hon mae awdurdod lleol sydd wedi'i rymuso a'i alluogi'n strategol fel arweinydd ar gyfer ei leoedd a'i gymunedau ac fel 'cynullwyr' sy'n dod â phartneriaid at ei gilydd i gydweithio.

Mae'r rôl hon yn y cyngor yn holl bwysig. Nid oes unrhyw un arall – ar wahân i'r gymuned ei hun – yn poeni cymaint am ansawdd 'lle' neu'n meddu ar y cyfreithlondeb i arwain y broses 'creu lleoedd' a churadu yn ei awdurdodaeth ar wahân i'r cyngor etholedig. Mae hon yn egwyddor drefniadol ganolog ar gyfer strategaeth adfer Caerdydd.

Mae COVID-19 wedi gwneud i ni feddwl mwy nid llai am 'le'. Rydym i gyd nawr yn sylweddoli pa mor bwysig yw cael mannau cyhoeddus ac agored diogel a chroesawgar, i gael mynediad i fannau crynodol a chyfnewidiol fel canolfan datblygu economaidd ac arloesi.

Mae'r adroddiad yn galw am 'guradu lle' wedi'i flaenoriaethu a chydgyfeiriad disgyblaethau a phartneriaid sydd ei angen i sicrhau'r canlyniadau gorau. Dylai Caerdydd gynnal archwiliad cynhwysfawr, y tu allan i'r cylch cynllunio arferol, o'r dangosyddion perfformiad allweddol sy'n ymwneud â gweithgarwch economaidd ac iechyd a lles 'lleoedd' sy'n greiddiol i'w strategaeth. Yn rhannol i weld beth sydd heb newid yn ystod COVID-19 o ran swyddogaeth neu gymeriad lle ond yn hollbwysig beth sydd wedi newid neu y gallai fod angen iddo newid fel rhagarweiniad i ymyriadau effeithiol i ail-lunio a churadu'r lle hwnnw. Mae dinasoedd llwyddiannus mewn ystyr ddofn yn groniad o leoedd gwych gyda churadu lleoedd yn hanfodol i adeiladu'r gwerth cyffredin, capasiti cymunedol, a chydweithredu traws-sector sy'n sylfaen i ddinasoedd a chymunedau gwydn.

## MANTEISIO AR FOMENTWM O AMGYLCH YR AGENDA WERDD

Mae argyfwng 2020 wedi ein galluogi i feddwl am dueddiadau hirdymor a beth yw'r dyfodol ar gyfer ein dinasoedd a'n rhanbarthau, yn enwedig mewn perthynas â'r agenda hinsawdd a'r economi. Mae momentwm, wedi'i ysgogi gan COVID-19, tuag at wireddu Cytundeb Paris a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig yn lleol. Mae'r agenda hon wedi'i chrynhoi fel 'di-dlodi, di-garbon'. Mae clwstwr o dechnolegau arloesol yn debygol o gael ei annog gan yr agenda hon: ynni adnewyddadwy, electrosymudedd, dinasoedd clyfar, diwydiant hydrogen, technolegau economi gylchol, a threfi biophilig. Mae'r adroddiad yn nodi peth o botensial yr agenda hon i Gaerdydd feddwl amdano, ac arwain arno, gan weithio gyda phartneriaid ar draws y ddinas-ranbarth. Gall mentrau tai ac adfywio newydd tra'n cyflawni eu canlyniadau pwysig eu hunain atgyfnerthu'r ymdrech hon hefyd.  Mae'r Cyngor eisoes wedi bod yn arloeswr mewn mentrau o'r fath ac rydym yn awgrymu adeiladu ar y datblygiadau arloesol yr ydym wedi'u gweld yn y Cyngor. Mae tai yn rhan allweddol o ymdrech adfywio a chreu lleoedd ehangach sy'n cynnwys ôl-ffitio aneddiadau presennol a chreu rhai newydd ar hyd model defnydd mwy cymysg, cerddadwy a chynaliadwy – 'dinas o bentrefi'. Os ychwanegir y mater allweddol o gynyddu mynediad at berchnogaeth bosibl at hyn a'r angen i ailfuddsoddi mewn tai cyhoeddus a chymdeithasol presennol er mwyn sicrhau manteision effeithlonrwydd ynni ac iechyd i denantiaid o fentrau gwyrdd, yna mae gennych agenda ôl-COVID-19 fawr.

## ARLOESI YM MAES LLYWODRAETHU ER MWYN MANTEISIO I'R EITHAF AR GAPASITI, PWERAU AC ADNODDAU CAERDYDD – ER BUDD CYMRU

Yn hollbwysig, mae'r argyfwng hefyd yn arwain dinasoedd, cynghorau a'r llywodraeth i fyfyrio ar y gofynion llywodraethu ac ariannu sylfaenol er mwyn gallu adfer a thrawsnewid. Credaf fod gofynion penodol ar gyfer diwygio er mwyn sicrhau'r fframwaith llywodraethu ac adnoddau gorau posibl yng Nghaerdydd, er mwyn rhoi'r gallu i'r ddinas baratoi, buddsoddi ac ymateb i argyfyngau yn y dyfodol. Mae'r ddadl ryngwladol yn anelu at ddatganoli pwerau, cyfrifoldebau a chyllid yn gyflymach i lefelau lleol neu fetropolitanaidd a gweithio arloesol mewn partneriaeth rhwng haenau o lywodraeth. Mae hyn yn golygu cydweithio llywodraethol arloesol rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru i gyflawni Premiwm Caerdydd. Mae'r adroddiad yn nodi mentrau llywodraethu i gyflawni'r arloesi hwn rhwng haenau o lywodraeth – a lle bo angen, partneriaid eraill – mewn mentrau 'rheoli lleoedd' neu adfywio.

Bydd angen y canlynol yn gyffredinol;

- **Modelau twf newydd** sy'n blaenoriaethu arloesedd, cynhwysiant a chynaliadwyedd
- **Strwythurau llywodraethu newydd** sy'n aml-sectoraidd, aml-lywodraeth – haenol, entrepreneuraidd, ac o bosibl yn cynnwys busnesau a chymunedau lleol mewn ffyrdd newydd
- **Dulliau ariannol newydd** sy'n datgloi cyfoeth y cyhoedd ac yn trefnu cyfalaf preifat a dinesig o amgylch diben cyhoeddus
- **Capasiti sefydliadol, strategol a chyflenwi newydd** i gynllunio a gwireddu potensial llawn y datblygiadau arloesol hyn

Felly, bydd angen i ni weld mentrau newydd o gwmpas, er enghraifft, mwy o gysoni rhwng y sector cyhoeddus a datblygwyr preifat ynghylch ariannu ar y tir, adfywio trefol a datblygu sy'n canolbwyntio ar dramwy; a chytundebau â phrifysgolion, colegau ac ysgolion i hyrwyddo agenda arloesi, sgiliau a datblygu economaidd cynhwysol a rennir. Mae llywodraethu dinas cydweithredol ôl-COVID-19 yn weithgaredd prif ffrwd craidd sydd wedi'i anelu at fanteision materol i gymunedau a busnesau lleol, ar gyfer creu lleoedd sy'n canolbwyntio ar yr economi ac ar gyfer adfer momentwm i'r peiriant twf hwnnw, sef y ddinas.

## MAE GALLU DINAS I WEITHREDU EI STRATEGAETH A'I HARLOESEDD EI HUN YN ALLWEDDOL

Roedd p'un a allai dinas drefnu'r weledigaeth, y strategaeth, y cyllid a'r gweithrediad i wireddu dyheadau yn dod yn faes gwahaniaethu pendant i fuddsoddwyr ar drothwy COVID-19 a bydd yn bwysicach wrth symud

ymlaen. Felly hefyd gallu dinas i arloesi i gynyddu cyfradd y buddsoddiad a chipio gwerth ar draws cylchoedd bywyd cyfan. Mae'r ffactorau hyn yn gynyddol ganolog i benderfyniadau a wneir gan fuddsoddwyr a thalent symudol ynghylch ble i leoli.




## 'LLYWODRAETHU WEDI'I RWYDWEITHIO' CAERDYDD

Wrth argymell ail-ddyfodiad llwyddiannus Caerdydd yn sgil COVID-19 mae angen i’r Cyngor ddatblygu ymhellach ei fodel o arweinyddiaeth agored a chydweithredol, pwysleisiaf fod y model llywodraethu hwn yn ymwneud â'r Cyngor fel prif eiriolwr y ddinas, a threfnu a chynnull cynghreiriaid mewn haenau eraill o lywodraeth, busnes a'r gymuned y tu ôl i strategaethau a rennir, yn ogystal â bod yn gynhyrchydd gwasanaethau cyhoeddus. Yn syml, dylai fod dwy echel i'r arloesi llywodraethol: un llorweddol ac un fertigol: fertigol yn yr ystyr o gydweithio â haenau o lywodraeth fel llywodraethau Cymru a'r DU; llorweddol, o ran gweithio gyda chynghorau yn y ddinas-ranbarth ond hefyd ac yn hollbwysig, ymgysylltu'n ddyfnach â busnesau lleol, prifysgolion a’r gymuned.

***Cydweithio: gyda chynghorau***

Bydd hyn yn parhau'n arwyddocaol, yn enwedig yng nghyd-destun y ddinas-ranbarth, ond heb fod yn gyfyngedig i'r 'echel rhwng y gogledd a'r de' fwy neu lai hwn, gan y bydd Caerdydd, a hynny'n briodol, yn ceisio adeiladu ar integreiddio cynyddol yr awdurdodau 'arfordirol' i'r gorllewin a'r dwyrain ac yn y pen draw i Fryste. Bydd mwy o aliniad strategol rhwng Bryste a Chaerdydd fel rhan o fenter newydd Porth y Gorllewin yn hollbwysig, ac mae'n adlewyrchu'r capasiti sydd gan Gaerdydd i fod yn gynrychiolydd Cymru yn y fenter hon, sydd o arwyddocâd i'r DU ac a allai arwain at lefelau ffocws polisi a buddsoddiad cyhoeddus sy'n cyfateb i rai rhanbarth Pwerdy'r Gogledd. Efallai y bydd Caerdydd sy'n ymgymryd â'r rôl hon ei hun yn defnyddio adnoddau seilwaith newydd y llywodraeth ar lefel y DU a buddsoddiad preifat nad ydyw ar gael i unrhyw ddinas arall yng Nghymru.

***Cydweithio â'r sector preifat***

Dylai hyn gynnwys partneriaethau arloesol ynghylch strategaethau datblygu economaidd dinas a marchnata a, lle y bo'n briodol, mathau newydd o bartneriaeth i ddarparu cyfleoedd economaidd ac arloesi ac adfywio ardaloedd.

***Cydweithio: gyda phrifysgolion***

Bydd hyn hefyd yn hanfodol i bartneriaethau sector preifat a thwf yr economi wybodaeth leol. Ar ôl COVID-19, bydd prifysgolion yn creu cysylltiadau agosach byth â'r ardaloedd a'r dinasoedd y maent wedi'u lleoli ynddynt. Bydd cael mwy o'r gymuned leol yn y ddinas-ranbarth ar gyrsiau – nid cyrsiau gradd yn unig – sy'n cael eu rhedeg gan brifysgolion y ddinas, yn dod yn fusnes craidd. Ar yr un pryd, wrth i'r economi arloesi newydd gryfhau, felly hefyd y bondiau ffisegol a bondiau eraill rhwng rhannau eraill o'r sector preifat a'r sector cyhoeddus, sy'n gweithredu yn yr ardal o amgylch prifysgol. Fel y gwelsom, mae gan Gaerdydd ardaloedd arloesi newydd a bydd ganddi fwy. Mae'n hanfodol i bartneriaethau cyhoeddus, preifat a chymunedol effeithiol gefnogi'r mentrau hyn, er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl i'r cyhoedd ohonynt, er mwyn galluogi mwy o effeithiau i'r economi ehangach ac ennyn brwdfrydedd ac ymgysylltu â phobl ifanc leol i ddatblygu'r sgiliau a'r doniau i'w galluogi i fanteisio ar y momentwm newydd hwn.

***Cydweithio â'r gymuned***

Rwy'n credu mai adeiladu ar y bondiau cryf rydym wedi'u gweld yn datblygu rhwng y gymuned a'u llywodraethau wrth reoli COVID-19 ar y cyd yw'r hyn y bydd y ddinas arfer gorau yn ei wneud. Rwy'n credu y dylai Caerdydd gael ei hysbrydoli gan hyn hefyd o ran manteisio ar ymgysylltiad a, gallu cymunedau lleol i gyd-gynhyrchu, drwy well defnydd o lwyfannau digidol a thrwy fforymau lefel cymdogaeth mwy aeddfed neu bartneriaethau a arweinir gan y cyngor ledled y ddinas ond efallai'n arbennig o bwysig yn yr hyn y gellid ei ystyried yn 'ardaloedd blaenoriaeth' lle mae

prosiectau adfywio mawr yn cael eu cynllunio neu lle bydd canolfannau defnydd cymysg lleol yn cael eu gwella. Credaf fod gan Gaerdydd gyfle gwirioneddol sy'n deillio o'r argyfwng hwn o fod y gorau o’i fath o ran i ba raddau a dyfnder y mae'n rhoi cyfleoedd i'w chymunedau, busnesau a phrifysgolion chwarae rhan greadigol yn y gwaith o lunio a darparu strategaethau a gwasanaethau craidd ar gyfer y ddinas.

## LLYWODRAETHU FERTIGOL : CYDWEITHIO O'R NEWYDD Â LLYWODRAETH CYMRU – A MANTEISIO AR GYFLEOEDD NEWYDD

### LLYWODRAETH Y DU

Mae angen dybryd i Lywodraeth Cymru gefnogi ei chyfalaf drwy'r cyfnod pontio hwn a gweithio'n agosach byth gyda'r cyngor ar ddulliau cyffredin o arloesi a buddsoddi. Caerdydd yw'r ardal drefol sydd gan Gymru sy'n gallu cynnig yr hyn y mae gwledydd yn ei ragweld ac angen gan eu dinasoedd. Fel y dywedodd rhywun enwog unwaith: nid oes dewis arall.

Rwy'n annog Llywodraeth Cymru hefyd i ystyried arloesiadau llywodraethu a sefydliadol er mwyn sicrhau'r enillion mwyaf posibl o ddulliau a rennir. Os yw'n briodol, gallent ddefnyddio'r berthynas â Chaerdydd a chyfleoedd yng Nghaerdydd, fel prototeipiau i'w cyflwyno mewn mannau eraill yng Nghymru wedyn.  Beth bynnag fo'r amheuon neu'r pryderon, ac yn wir balchder, sydd gan bob un ohonom fel Cymry yn ein rhannau ein hunain o'r ffabrig cenedlaethol, mae'n cael ei chwalu os bydd ein prifddinas yn pallu. Mae hon yn foment ar gyfer undod cenedlaethol uchel, ffocws ac arloesedd meddwl agored.

## CAERDYDD: PRIFDDINAS A’R CYNTAF YMHLITH Y CYFARTAL?

Felly mae'n hanfodol wrth symud ymlaen bod Llywodraeth Cymru, oherwydd pwysigrwydd y ddinas a'i heriau a'i chyfleoedd, yn gweld y Cyngor fel 'y cyntaf ymhlith y cyfartal' o ran partneriaid llywodraethu. Mae'r strategaethau ar gyfer cynnal ac adnewyddu ABG Caerdydd a'r economi wybodaeth ac ar gyfer ysgogi prosiectau dinas mawr Caerdydd – prosiectau cyfalaf yn yr Orsaf Ganolog, y Bae, Llaneirwg, yr ardaloedd arloesi newydd, Metro newydd y Cymoedd a'r rhwydwaith yng Nghaerdydd, prosiectau adnewyddu ystadau o faint – yn gofyn am bartneriaeth aeddfed a dychmygus ac aliniad sefydliadol rhwng Caerdydd a Llywodraeth Cymru, gyda phob un yn cyfrannu, er budd cydfuddiannol a chenedlaethol. Yn rhyngwladol, mae'r canlyniadau gorau'n dod pan fydd llywodraethau'n croesawu cydweithio â'u dinasoedd allweddol, a datganoli pwerau a hyd yn oed asedau iddynt.

## MAE ANGEN I GYNGHORAU GAEL EU GRYMUSO A GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH GYDA LLYWODRAETHAU: NAWR YN FWY NAG ERIOED.

Rwyf yn pwysleisio bod yr holl dystiolaeth am berfformiad dinasoedd yn dangos bod ei llywodraethau'n ffynnu ac yn cyflawni'r rhan fwyaf ar gyfer eu rhanbarth pan gânt eu grymuso ac yn gweithio mewn partneriaeth â haenau eraill o lywodraeth, yn enwedig yn eu dinas-ranbarth: ond mae angen i'w sofraniaeth swyddogaethol a'u dealltwriaeth unigryw o asedau eu dinas eu hunain a sut y maent yn gweithio orau er lles pawb gael eu hadlewyrchu yn eu llywodraethu a'u pwerau. Synnwyr cyffredin ac arfer cyffredin. Byddai’n ddoeth sicrhau bod unrhyw newidiadau a gynigir wrth reoli cynllunio, datblygu economaidd ac yn wir trafnidiaeth yng Nghaerdydd ac ar ei rhan, yn atgyfnerthu gallu a strategaethau'r Cyngor i wasanaethu dinasyddion y ddinas ac i fanteisio i'r eithaf ar botensial y ddinas ar gyfer y rhanbarth ehangach ac yn wir i Gymru.

Yn y gystadleuaeth am fuddsoddiad a thalent, y ddinas lwyddiannus fel yr wyf wedi pwysleisio fydd y rhai y canfyddir bod ganddynt y pŵer angenrheidiol i wneud, cydlynu ac ariannu penderfyniadau ynghylch materion ac asedau allweddol, megis dyfodol trafnidiaeth yn y ddinas neu adnoddau ar gyfer adfywio ardaloedd neu adnewyddu ystadau. Fe'u hystyrir yn strategol glir ac awdurdodol wrth benderfynu a darparu ar gyfer hanfod dyheadau'r ddinas, ac wrth arwain y ddinas i'r nod hwnnw. Ond mae angen i bawb ddeall, y bydd dinasoedd, wrth gwrs, hefyd yn cael eu hasesu gan ansawdd y bartneriaeth sydd ganddynt gyda chwaraewyr allweddol perthnasol eraill ac yn enwedig haenau'r llywodraeth uwchben y rhain. Mae aliniad llywodraethu a ffocws strategol a rennir bob amser yn ddeniadol yn y farchnad. Bydd yn ychwanegu at gynnig Caerdydd yn y cyfnod ôl-COVID-19 i gael cydweithrediad creadigol gorau o’i fath â Llywodraeth Cymru yn arbennig ond hefyd gyda llywodraeth ganolog y DU: sy’n hanfodol o gofio bod y cyllid olynol i Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd sydd yn y broses o gael ei gynllunio gan Lywodraeth y DU yn debygol o ganolbwyntio ar ddinasoedd ail haen gyda Chaerdydd yn ffocws posibl ar gyfer y ffynhonnell fuddsoddi newydd bwysig hon: ac felly'n gyfrwng posibl ar gyfer gwariant ychwanegol gan sector cyhoeddus y DU yn y ddinas-ranbarth.

## Y LLYWODRAETH A CHYNGOR Y DDINAS YN CYDWEITHIO I RYMUSO'R DDINAS

Mae Cymru angen i Gaerdydd gael yr awdurdod, yr ansawdd a'r capasiti hwnnw – cyngor wedi'i rymuso mewn partneriaeth greadigol â Llywodraeth Cymru a'i hasiantaethau, wedi'i alinio y tu ôl i strategaeth datblygu a rennir i sicrhau'r elw mwyaf posibl o gyfleoedd a safleoedd allweddol y ddinas, gan brototeipio trefniadau ac offer cyflawni newydd yn ôl y gofyn. Mae'n fodel sydd o fudd i ddinasoedd a'u gwladwriaethau lle bynnag y caiff ei weithredu.

Yn y cyd-destun hwn, bydd Llywodraeth Cymru am sicrhau y bydd ei chynnig yn 2019 i sefydlu Cydbwyllgorau Corfforaethol yn cryfhau'r bartneriaeth hanfodol hon rhwng haenau uchaf ac is y llywodraeth o ran gwireddu potensial llawn ein prifddinas ac atgyfnerthu'r ffocws, y strategaeth a'r adnoddau sydd eu hangen i wneud y mwyaf o gyfraniad economaidd Caerdydd i'r rhanbarth ac yn wir i Gymru. Mae'r adroddiad yn pwysleisio manteision Model Datblygu Trefol Integredig Siarter Leipzig yr UE i Lywodraeth Cymru, sydd yn ei hanfod yn sefydlu cyfrifolaeth.

Mae hefyd yn cyfeirio sylw at yr angen am fuddsoddiadau 'caled' a 'meddal' mewn pobl a lle i gael eu hintegreiddio – fel bod y sgiliau, y tai a'r cyfleoedd iechyd i gymunedau o ddatblygu, er enghraifft, yn cael eu optimeiddio fel yn y rhaglenni adfywio trefol gorau. Er mwyn gwneud hynny mae bob amser angen cydweithio rhwng llywodraeth dinas leol gyda'i dealltwriaeth integredig o ganlyniadau pobl a lleoedd ac asiantaethau perthnasol y llywodraeth, ac atebolrwydd amdanynt.

Er fy mod o blaid sefydlu'r math hwn o integreiddio'n ffurfiol yn gyfansoddol neu drwy ddeddfwriaeth yn y tymor hwy, mae angen pragmatiaeth nawr. Yfory, gallai trafodaethau ddechrau ar gytundebau dychmygus rhwng haenau o lywodraeth, gan ofyn am hyblygrwydd a rhannu amcanion a chymhwyso pwerau ac adnoddau wedi'u targedu gan bartneriaid, pob un yn chwarae eu rhan.  Mae'r adroddiad yn awgrymu mentrau gan gynnwys un math wedi'i dargedu o 'gontract dinas' o'r fath: y Compact Seilwaith Lleoedd.

## TREFNIADAU LLYWODRAETHU PENODOL AR GYFER ADFYWIO AR Y CYD: PROTOTEIPIO COMPACT SEILWAITH SY'N SEILIEDIG AR LEOEDD YNG NGHAERDYDD

Mae Compactau Seilwaith Lleoedd (CSLl) yn arloesiad sydd wedi dod i'r amlwg o Gomisiwn Sydney, awdurdod cynllunio integredig metropolitan cyntaf Sydney. Rwy'n awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru a Chaerdydd eu harchwilio, eu datblygu a'u prototeipiau mewn perthynas â dull mwy integredig ar y lefel 'lle' lleol neu lefel safle / ardal allweddol yng Nghaerdydd er mwyn helpu i gydlynu cynllunio a buddsoddi yn y sector cyhoeddus er budd y cyhoedd. Yn fy marn i, gellid defnyddio’r CSLl neu drefniant llywodraethu o fath CSLl mewn ardaloedd adnewyddu allweddol ar gyfer Caerdydd ond gallai fod yn werth ei archwilio hefyd ar gyfer unrhyw gynllun adnewyddu canol dinas/ABG (lle gallai cynnig i gael Tasglu Adnewyddu Llywodraeth Caerdydd-Cymru ar y cyd fod yn werth ei archwilio hefyd). Mae'r model llywodraethu yn darparu'r dulliau o alinio a chydlynu a'r potensial ar gyfer partneriaeth go iawn ymhlith asiantaethau'r llywodraeth a haenau o lywodraeth.

Yn ei hanfod, nod y CSLl yw darparu'r seilwaith cywir, yn y lle cywir ac ar yr adeg gywir drwy gysylltu gwireddu canlyniadau sy'n seiliedig ar leoedd â darparu seilwaith. mae'r Dangosyddion Perfformiad yn adlewyrchu ac yn cyflawni amcanion strategol yn y cynllun trefol sydd â'r nod o lunio dinasoedd, canlyniadau cymunedol ac economaidd ac annog alinio cynllunio a chyflawni strategol.

Felly, mae'r compact seilwaith sy'n seiliedig ar leoedd yn canolbwyntio ar ganlyniadau lleoedd nid seilos buddsoddi. Yr allwedd yw'r mandad ar gyfer cydweithredu gwirioneddol ar draws y llywodraeth a rhwng haenau o lywodraeth a chwaraewyr lleol allweddol i ddianc rhag achosion busnes seilo tuag at gyflawni canlyniadau rhanbarthol sy'n seiliedig ar leoedd. Mae'n dibynnu ar bobl yn cydweithio ac yn rhannu gwybodaeth: cydweithredu a chyfrifolaeth. Mae'n rhywbeth y credaf y gellir ei arloesi yng Nghaerdydd ar ôl COVID-19 mewn ymdrech ar y cyd i gyflawni'r llif hanfodol o safleoedd, ardaloedd a phrosiectau allweddol ym mhortffolio Caerdydd. Mae cael y gorau o'r portffolio hwnnw'n golygu cryfhau capasiti, adnoddau a phwerau'r Cyngor ei hun a dylai Llywodraeth Cymru gynllunio dulliau pwrpasol o gydweithio i fanteisio ar gyfleoedd allweddol ar y cyd: efallai defnyddio Caerdydd i brototeipio cydweithrediadau o'r fath fel rhan o broses cyd-ddylunio effeithiol y gellir wedyn ei hymestyn y tu hwnt i berthynas Llywodraeth Caerdydd-Cymru.

## CAERDYDD FEL ARBRAWF CYMRU AR GYFER MENTRAU SAN STEFFAN ÔL-BREXIT

Bydd Caerdydd eisiau archwilio rhai o'r mentrau blaenllaw ôl-Brexit a chyn bo hir mentrau ôl-COVID-19 sy'n deillio o Lywodraeth y DU. Fel yr ydym wedi nodi, mae Llywodraeth Prydain wedi pwysleisio ymrwymiad i arloesi ym maes llywodraethu a datganoli pwerau o arwyddocâd economaidd fel rhan o'i hagenda graidd ar gyfer 'lefelu'. Nod yr agenda honno yw galluogi dinasoedd a threfi i ddod yn gynhyrchwyr mwy cynhyrchiol o werth economaidd i'r DU drwy arloesi sefydliadol lleol a chreu gwerth. Er bod llawer o'r agenda wedi'i thargedu at Ogledd Lloegr a Chanolbarth Lloegr bydd cyfleoedd i Gaerdydd a allai ddylanwadu ar yr offer a'r buddsoddiadau sydd ar gael er budd y ddinas, y ddinas-ranbarth ac yn wir i Gymru.

Mae'r pecyn cymorth a welwn yn dod i'r amlwg, i ryw raddau yn cael ei ddylanwadu gan fenter dinas-ranbarth fel Manceinion Fwyaf, yn cynnwys dull ennill yn ôl o fuddsoddi mewn seilwaith lle gall llywodraethau lleol fenthyca gan fanc seilwaith newydd ledled y DU (gyda cefnogaeth y Trysorlys) ar sail ffrydiau incwm disgwyliedig a gwarantedig o dwf mewn amrywiad o'r hyn a fyddai yn yr UD yn cael ei alw'n Gyllid Cynyddiad Treth. Mae hefyd yn cynnwys y posibilrwydd o leoleiddio cynllunio a llywodraethu trafnidiaeth er mwyn galluogi fersiynau rhanbarthol o Transport for London i ddod i'r amlwg. O ddiddordeb arbennig i Gaerdydd fel dinas borthladd – efallai mewn cydweithrediad â'r ddinas borthladd arall, Casnewydd, o ystyried y coridor economaidd sy'n tyfu'n gyflym rhyngddynt a'r diddordeb cyffredin yn yr ardal ddatblygu o amgylch Llaneirwg ac ar hyd yr arfordir – mae pwyslais newydd ar alluogi porthladdoedd heb dariffau a chyfyngiadau masnach a allai weithio ochr yn ochr ag Ardaloedd Menter cyfagos. Mae gan Gaerdydd botensial mawr fel safle ar gyfer arloesi o'r fath.

Er fy mod wedi argymell yn yr adroddiad hwn fod y Cyngor ei hun yn croesawu newidiadau, rhai cymedrol, rhai mwy uchelgeisiol, rwyf hefyd wedi argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio datblygiadau llywodraethu cydweithredol arloesol tebyg i Siarter Leipzig a'r CSLI. Er ei fod y tu allan i gylch yr adroddiad hwn, fy marn i yw y dylai Llywodraeth Cymru efallai fod yn fwy radical o ran mynd ar drywydd arloesi ym maes llywodraethu a chryfhau llywodraeth leol gan adolygu ei safbwynt ar gyfuno llywodraeth leol yn gyffredinol ond yn enwedig fel ffordd o greu llywodraethu ar raddfa fetropolitanaidd gyda Chaerdydd yn ganolog iddo. O ystyried yr amhariad ar ffrydiau incwm y cyngor ac adnoddau dan straen – a'r angen i Lywodraeth Cymru gael partneriaid cryfach a mwy strategol wrth symud ymlaen, i helpu i lunio'r byd ôl-COVID-19, nid wyf yn credu bod adeg well. A byddai Caerdydd yn bartner 'cyntaf ymhlith y cyfartal' parod iawn i'r

Llywodraeth. Ar gyfer adroddiad arall a diwrnod arall mae'n debyg.